

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Gwener, 21 Hydref 2022

Lisa Evans

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 27 Hydref 2022 am 1.30 pm i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
3. Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft 2022-27 (Tudalennau 3 - 64)
4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 65 - 68)

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu
DYDDIAD:	27 Hydref 2022
LLEOLIAD:	Siambur y Cyngor / Cynhadledd Fideo o Bell
TEITL:	Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft 2022-27
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I gyflwyno'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027 gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol
Y RHESWM MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	I ystyried y Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027, gan gynnwys drafft yr Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd cyn cyflwyno i Gabinet a'r Cyngor am gymeradwyaeth terfynol
PORTFFOLIO'R CABINET AC AELOD Y CABINET:	Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet i Wasanaethau Democrataidd a Pholisi, Perfformiad a Phartneriaethau
CEFNDIR:	

Yn dilyn yr etholiadau lleol yn Mai 2022, mae angen Strategaeth Gorfforaethol newydd i osod allan Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd y Cyngor (blaenoriaethau corfforaethol) ac yr uchelgeisiau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn dangos sut bydd y cyngor yn edrych i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion a hefyd i uchafu ar ein cyfraniad tuag at y saith Nod Llesiant Cenedlaethol yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027 nawr wedi'i pharatoi ac mae'n gosod allan yr Amcanion Llesiant Corfforaethol arfaethedig am y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft wedi atodi fel Atodiad 1.

Pwrpas craidd y Strategaeth Gorfforaethol yw nodi sut bydd yr awdurdod yn cefnogi ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd a llesiant dinasyddion Ceredigion, trwy ei gweledigaeth tymor hwy a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Yr Amcanion Llesiant Corfforaethol arfaethedig ydy:

- **Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth**
- **Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach**
- **Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu**
- **Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd**

Tudalen 4

Mae'r rhain wedi'i nodi trwy ddadansoddiad helaeth o ddata ac ymgysylltu gyda phreswylwyr, gan gynnwys uchelgeisiau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd, Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar y strategaeth ddrafft.

Mae'r amcanion hefyd wedi'i nodi trwy weledigaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd hyn yn cynnwys adnabod sut mae modd i ni uchafu ein cyfraniad at yr amcanion llesiant cenedlaethol a hefyd sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r egwyddor datblygu gynaliadwy i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael ei chyrraedd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyrraedd anghenion ei hunan.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft yn cynnwys cynllun gweithredu sydd yn manylu'r camau angenrheidiol er mwyn cyflawni pob un o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae cynnydd yn cael ei adolygu pob blwyddyn a fydd hyn yn cael ei chyhoeddi yn Adroddiad Hunan Asesu'r Cyngor.

Ymgynghorwyd ar y Strategaeth ddrafft a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol rhwng 24 Awst a 30 Medi 2022. Mae Adroddiad Adborth yr Ymgynghoriad ynghlwm yn Atodiad 2. Mae unrhyw ddiwygiadau o'r ymgynghoriad wedi'u hymgorffori yn y ddogfen derfynol.

**A oes Asesiad Effaith
Integredig wedi'i gwblhau?
Os na, nodwch pam**

Oes

Crynodeb: Mae ein holl Flaenoriaethau yn ceisio sefydlu Cymru fwy Cyfartal drwy sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer cyflogaeth, tai, addysg, ffyrdd iachach o fyw a chymunedau cynaliadwy.

Hirdymor: Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn edrych ar y Blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor am y 5 mlynedd nesaf. Mae'r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd yn ceisio gwneud y mwyaf o'r cyfraniad a wneir i'r saith nod llesiant.

Integreiddio: Mae'r blaenoriaethau gyda'i gilydd yn ceisio effeithio ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y bobl.

Cydweithio: Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ar ddarparu gwasanaethau yn elfen bwysig o'r Strategaeth.

Cynnwys: Rhoddwyd ystyriaeth i uchelgeisiau'r weinyddiaeth newydd, gweithdy Rheolwyr Corfforaethol, Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion a'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU
DYFODOL:**

Tudalen 5

Atal: Mae pob un o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol yn ceisio ymgorffori'r agenda atal.

ARGYMELLION: Bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cytuno ar Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027 gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol cyn i'r Cabinet a'r Cyngor ei hystyried.

RHESWM DROS YR ARGYMELLION Er mwyn bwrw ymlaen â pharatoi Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Atodiadau: Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-27
Strategaeth Gorfforaethol 2022-27 - Adroddiad Adborth Ymgynghori

Enw Cyswllt: Rob Starr

Dynodiad: Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil

Dyddiad yr Adroddiad: 27 Hydref 2022

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



STRATEGAETH GORFFORAETHOL

2022-27

CYNNWYS

Cyflwyniad	2
Gwybodaeth am Geredigion	3
Cyflawniadau Allweddol	5
Gwella Cyfleoedd	6
Ein Cyngor	7
Arian a Chyllid	7
Trawsnewid	8
Gweledigaeth a Blaenoriaethau	9
Cyfraniad i'r Nodau Llesiant Cenedlaethol	10
Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth	11
Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach	17
Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu	23
Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd	29
Ymateb i COVID-19 a Datblygu Ffyrdd Newydd o Weithio	35
Cartref Eisteddfod Genedlaethol 2022	36
Rheoli Ein Perfformiad	37
Datblygiad Cynaliadwy	38
Ein Perfformiad	39

Gan Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion

Croeso i Strategaeth Gorfforaethol newydd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2027. Yn dilyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022, paratowyd y ddogfen hon i amlinellu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol newydd a'n dyheadau ar gyfer y bum mlynedd nesaf.

Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel gan wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Ceredigion. Rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn modd cadarnhaol gan wreiddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar draws y Cyngor.

Hoffem ddiolch i'r weinyddiaeth flaenorol am fwrw ymlaen â phrosiectau buddsoddi allweddol megis Tyfu Canolbarth Cymru a gwella ysgolion ynghyd â'r gwaith o gydlynu ein hymateb i bandemig COVID-19. Mae'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y tymor diwethaf yn fawr ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Llofnodi'r Cytundeb Terfynol ar gyfer Bargen Dwf Canolbarth Cymru a fydd yn arwain at fuddsoddiad cyfunol o £110m yn economi Canolbarth Cymru.
- £10.8m o gyllid cyfalaf a sicrhawyd drwy'r Gronfa Ffyniant Bro a £2.5m a sicrhawyd drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol.
- Gostyngiad o 61% mewn allyriadau carbon ers 2007 gan arbed £6m i'w hail-fuddsoddi.
- Cyfradd ailgylchu sy'n fwy na 70%. Mae'r Cyngor yn parhau i fod ymhlith y gorau yng

Nghymru.

- Agor Ysgol Dyffryn Cledlyn, yr ysgol ardal newydd yn Drefach, ym mis Medi 2017.

Yn y ddogfen hon, rydym yn troi ein golygon at y bum mlynedd nesaf ac rydym yn amlinellu ein hymrwymadau i'r trigolion lleol fel y gallwn ni adeiladu ar y llwyddiannau hyn.

Ar ôl dadansoddi'r dystiolaeth yn eang ac ymgysylltu â'r trigolion, rydym wedi nodi mai'r canlynol yw ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol newydd:

- **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth**
- **Creu cymunedau gofalgar ac iach**
- **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu**
- **Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd**

Byddwn yn cyfeirio ein hadnoddau at y meysydd hyn gan aillfywiogi'r economi lleol a chreu amgylchedd ffyniannus, iach, diogel a fforddiadwy lle y gall trigolion Ceredigion ffynnu.

Wrth wneud hynny, byddwn yn parhau i weithredu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u cynnwys yn ein gwaith gan gyfrannu gymaint â phosibl at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Rydym yn gweithio'n galed i ddod ag adferiad economaidd a llwyddiant i Geredigion drwy gefnogi busnesau lleol, mynd i'r afael â thlodi

a darparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau lleol neu ddychwelyd iddynt.

Yn ystod y tymor hwn, byddwn hefyd yn cydweithio gyda Chymdeithasau Tai Lleol i gynyddu'r stoc o dai cymdeithasol gan ymateb i anghenion pobl leol a rhoi sylw i berchnogaeth ail gartrefi yn y sir.

Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â gweithredu ein Rhaglen Llesiant Gydol Oes arloesol gan drawsnewid y modd y darperir gofal cymdeithasol a sicrhau bod pobl yn cael y lefel a'r math cywir o gymorth ar yr adeg gywir.

Mae pawb yn cydnabod pwysigrwydd y gallu i fod yn gysylltiedig a byddwn yn gweithio i wella cysylltiadau digidol a thrafnidiaeth ar draws y Sir, trwy gefnogi'r broses o gyflwyno Band Eang 4G, pwyso am well diogelwch ar y ffyrdd ac ymgyrchu am fwy o lwybrau teithio llesol.

Ein huchelgais o hyd yw sicrhau y bydd y Cyngor yn garbon net sero erbyn 2030. Er mwyn cyflawni hyn mae angen sicrhau bod cynlluniau datgarboneiddio a newid hinsawdd yn sail i bopeth yr ydym ni'n ei wneud wrth i ni geisio diogelu ein hamgylchedd hardd heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am y dyheadau sydd gennym ar gyfer ein Sir ac edrychwn ymlaen at roi adroddiadau cyson am y cynnydd y byddwn ni'n ei wneud.



Y Cynghorydd Bryan Davies
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion



Eifion Evans
Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion



Mae **Marchnad Ffermwyr Aberystwyth**, sy'n cael ei chynnal ddwywaith y mis drwy'r flwyddyn gyfan, yn mynd o nerth i nerth. Mae'r farchnad yn y dref ers mwy nag ugain mlynedd ac mae'n parhau'n llwyddiant mawr. Mae'n gartref i hyd at 25 o stondinau ar ddydd Sadwrn cyntaf a thrydydd dydd Sadwrn y mis. Canolfan Bwyd Cymru, Horeb, Llandysul sy'n gyfrifol am weinyddu'r Farchnad.

Gwybodaeth am Geredigion

Mae Ceredigion yn 1,900km² o ran maint ac mae'n cynnwys yn bennaf dir amaethyddol, rhostir a choedwigoedd. Mae ardaloedd yr ucheldir i'r dwyrain yn ffurfio cyfran sylweddol o fynnydoedd Cambria.

Mae gan y sir amrywiaeth o dirweddau a chynefinoedd naturiol: traethau a chlogwyni arfordirol, corstiroedd ac ucheldir agored. Mae pobl leol ac ymwelwyr yn gwerthfawrogi tirwedd ac amgylchedd naturiol y sir yn fawr.

Mae cyfran uchel o dir Ceredigion yn cael ei chydabod am ei gwerth amgylcheddol drwy ddynodiadau swyddogol, gan gynnwys dau wlyptir sy'n bwysig yn rhyngwladol (Aber Afon Dyfi a Chors Caron); 13 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA); tua 100 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), saith Gwarchodfa Natur Genedlaethol a thair Gwarchodfa Natur leol. Mae ucheldiroedd Mynyddoedd Cambria, yn ogystal â'r 'rhostiroedd' gwlyb, yn bwysig ar gyfer bywyd gwylt.

Mae gan Geredigion dros 90 cilomedr o arfordir. Mae pedair rhan o arfordir Ceredigion (tua 35 cilomedr) wedi'u dynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae Llwybr Arfordir Cymru yng Ngheredigion yn dilyn llwybr 60 milltir (96km) rhwng aberoedd Teifi a Dyfi. Mae Llwybr yr Arfordir yn cysylltu trefi a phentrefi ar hyd arfordir ysblennydd Bae Ceredigion.

Yr afonydd yn nalgylch Ceredigion yw afonydd Rheidol, Ystwyth, Clarach, Aeron a Theifi. Mae dalgylch afonydd Ceredigion yn arbennig iawn, ac mae pob afon yn llifo trwy dirwedd amrywiol, cyn cyrraedd y môr. Afon Teifi yw un o'r afonydd hiraf yn ne-orllewin Cymru, ac mae'n 122 cilomedr o hyd.

Mae tirwedd ddeniadol a lleoliadau anghysbell Ceredigion yn denu ymwelwyr i'r ardal ac mae'n rhan o'r hyn sy'n cael ei alw'n dwristiaeth 'lles gwledig'.

Mae bron 3 miliwn o bobl yn ymweld â Cheredigion bob blwyddyn.

Er bod pobl wastad wedi gwerthfawrogi'r amgylchedd fel rhywbeth sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles, dros y blynyddoedd diwethaf, mae diogelu'r amgylchedd wedi dod yn rhywbeth llawer pwysicach. Mae effeithiau andwyol newid hinsawdd ar yr amgylchedd a natur yn cael eu cydnabod yn llawer mwy ac mae pobl eisiau gwneud mwy i warchod ein hamgylchedd. Yn 2020, bu i Gyngor Sir Ceredigion ddatgan argyfwng newid hinsawdd, a chyn hyn, roedd y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030.

Mae economi Ceredigion yn eithaf nodweddiadol o economi nifer o ardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae cyfran uchel o swyddi yn y diwydiant twristiaeth (12.9%), y sector cyfanwerthu a manwerthu (12.9%) ac ym maes iechyd a gwaith cymdeithasol (12.3%). Addysg yw'r sector mwyaf yn y sir, gan gyflogi tua 4,300 o bobl ac mae hyn i gyfrif am tua 13.9% o'r swyddi yn y sir.

Yn wahanol i nifer o ardaloedd gwledig, mae'r sir yn cynnwys dwy brifysgol sef Prifysgol Aberystwyth a Champws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan. Hefyd, mae'n gartref i sefydliadau cenedlaethol megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r economi wybodaeth yn gryf yng Ngheredigion ac mae gan y sir hefyd 'economy werdd' sy'n tyfu. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar gynhyrchu llai o allyriadau carbon, defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a bod yn gynhwysol yn gymdeithasol.

Mae hunangyflogaeth yn elfen bwysig o'r economi leol, ac mae cyfran y bobl hunangyflogedig yng Ngheredigion ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae nifer yn ffermwyr ac mae eraill yn gweithio mewn amrediad o fentrau bychain sydd wedi'u hen sefydlu megis busnesau adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw.

Mae rhan fwyaf (99%) y busnesau yng Ngheredigion yn rhai maint 'micro', h.y. hyd at 9 o weithwyr neu'n rhai 'bach' (10 i 49 o weithwyr). Dim ond 1% o'r busnesau yng Ngheredigion sy'n cynnwys hanner cant o weithwyr neu fwy. Mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer busnesau sydd newydd eu sefydlu yn gyson ymhlith yr uchaf yng Nghymru, sy'n golygu bod Ceredigion yn lle gwyb i ddechrau a thyfu busnes.

Ystyrir bod Ceredigion yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, er bod gan y sir nifer fawr o fyfyrwyr. Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod 47.3% o breswylwyr Ceredigion yn gallu siarad y Gymraeg, a dyma oedd y drydedd ganran uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.


Ceir 43 o ysgolion yng Ngheredigion. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion gydol oes. Mae 37 ohonynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n golygu bod rhan fwyaf ein plant a'n pobl ifanc yn dysgu

ac yn defnyddio'r Gymraeg o oedran ifanc.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion 2022-32 yn anelu at sicrhau y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y byddant yn saith oed. Bydd hyn yn cynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i'r disgyblion ac yn caniatáu iddynt ddilyn llwybr cwbl ddwyieithog drwy eu gyrfaedd ac yn eu gwaith a'u bywydau cymdeithasol yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol Cymru a nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050.

Mae Ceredigion yn sir sy'n adnabyddus am ei safleoedd diwylliannol a threftadaeth. Ceir cestyll ac amgueddfeydd ar draws y sir ac mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Mae'r atyniadau hyn yn denu nifer o dwristiaid i'r ardal trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Sir yn cynnwys tair ardal ddaearyddol sef y gogledd, y canol a'r de. Gweler y diagram isod ar y dde.



EIN SIR MEWN RHIFAU

71,500
o bobl

46.8 oed
- oedran ar gyfartaledd

4%
poblogaeth BAME*

8,350
o fyfyrwyr Prifysgol

10%
o bobl ag anableddau

31,246
o gartrefi



Tudalen 11

43
o ysgolion a 9,590 o ddisgyblion

6
o gyfleusterau hamdden

2,265km
o ffyrdd

2,500km
o lwybrau ceffylau a llwybrau cerdded

2,805
o fentrau gweithredol

47.3
o breswylwyr sy'n siarad Cymraeg

*BAME = Poblogaeth Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

YFCLAWNIADAU ALLWEDDOL

£10.8m

o gyllid cyfalaf wedi'i sicrhau drwy'r Gronfa Ffyniant Bro (2022-25)

£2.5m

o gyllid reffeniw wedi'i sicrhau drwy'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol ar gyfer 2022/23

15,000+

o barseli bwyd wedi'u dosbarthu i'r trigolion a oedd yn fregus yn feddygol yn ystod pandemig COVID-19

£98,000

wedi'u dosbarthu o Gronfa'r Gofalwyr i ofalwyr di-dâl yng Ngheredigion

£5.8m

wedi'i sicrhau i adnewyddu ac adeiladu estyniad yn Ysgol Uwchradd Aberteifi, - un o nifer o fuddsoddiadau mewn ysgolion lleol

Gold Standard

Siarter y Gymraeg - wedi'i ddyfarnu i amryw o ysgolion lleol, gan gynnwys Ysgol Llanilar ac Ysgol Dyffryn Cledlyn

70.2%

o wastraff a gasglwyd gan y Cyngor yn cael ei gompostio neu ei aildefnyddio – yn gyson ymhlith y gorau yn genedlaethol

61%

o ostyngiad mewn allyriadau carbon ers 2007 - £6m wedi'i arbed i'w ail-fuddsoddi

BUDDSODDI YNG NGHEREDIGION

Sicrhau nifer o Grantiau Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a phrosiectau Strategol ar gyfer ystod eang o bartneriaethau yng Ngheredigion

Penodi ymgynghorwyr a chontractwyr i ddarparu'r ysgol ardal newydd gwerth £11.5m yn Nyffryn Aeron, a'r estyniad newydd gwerth £5.4m yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Gwario dros £30m ar gynlluniau amddiffyn yr arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth

Canolfan Lesiant £1.2m newydd yn Llanbedr Pont Steffan

Adain Dementia £300,000 newydd yng Nghartref Gofal Hafan Deg yn Llanbedr Pont Steffan

£2.6m i ailddatblygu Ysgol Gynradd Aberteifi

Sicrhau dros £250,000 i wella mynediad pobl at asedau naturiol Ceredigion drwy'r Bartneriaeth Natur Leol

Helpu i ariannu'r gwaith o ddatblygu Aberteifi fel Tref Glyfar, gan ddefnyddio technoleg megis Wifi, y rhyngwrwyd pethau ac Ap poblogaidd yn y dref fel y gall masnachwyr, Cyngor Tref Aberteifi a Chyngor Sir Ceredigion fesur gwybodaeth megis nifer yr ymwelwyr â'r dref a'r ardaloedd mwyaf poblogaidd.



Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth

Creu cymunedau gofalgar ac iach

Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu

Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd



Ceredigion ▶

Tudalen 12



GWELLA CANLYNIADAU



Creu Cyfleoedd

Ym mis Ionawr 2022, llofnododd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol y rhanbarth, sef Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys y Cytundeb Terfynol ar gyfer Bargaen Twf Canolbarth Cymru.

Mae'r Fargen Twf yn bartneriaeth arloesol sy'n dod â buddsoddiad cyfunol o £110m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a disgwyliar iddo ysgogi buddsoddiad ychwanegol sylweddol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill gan greu cymaint o effaith â phosib yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

Mae'r garreg filltir hon yn arwyddocaol gan fod disgwyl i'r rhaglenni a'r prosiectau a gefnogir gan y Fargen Dwf greu manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach, megis gwell ansawdd bywyd, creu cyfleoedd busnes yn dilyn effaith COVID-19, datgarboneiddio mewn diwydiant ac ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Dyma'r canlyniadau posibl y gellir eu cyflawni yng Nghanolbarth Cymru drwy fuddsoddiad y Fargen Dwf:

- Creu rhwng 1,100 a 1,400 o swyddi newydd yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2032.
- Cefnogi cynnydd net ychwanegol o rhwng £570 miliwn a £700 miliwn yng ngwerth ychwanegol gros Economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.
- Sicrhau buddsoddiad o hyd at £400 miliwn yn Economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.



Bywydau Annibynnol a Bodlon

Mae preswylwyr cyntaf cynllun gofal ychwanegol newydd Aberystwyth wedi canmol y modd y mae'r cynllun wedi trawsnewid eu bywydau, wrth iddynt gwrrd â ffrindiau newydd a manteisio ar y cyfle i gael dechrau newydd mewn bywyd.

Agorodd Maes y Môr, sy'n cael ei ddarparu gan Gymdeithas Tai Wales & West mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion, ym mis Hydref ym Mhen-yr-Angor, ac mae'n edrych dros y dref a'r harbwr. Ond i lawer o'i breswylwyr newydd, mae wedi cynnig llawer mwy na golygfeydd ysblennydd o'r môr yn unig.

Mae eu cartref newydd yn darparu mynediad hawdd at amrywiaeth o gyfleusterau, gofal a chymorth 24 awr ar y safle yn ogystal â Swyddog Lles, gan sicrhau bod preswylwyr yn byw bywyd annibynnol, iach a llawn boddhad.



Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed

Yn ystod pandemig COVID-19 cafodd tua 2,900 o breswylwyr gan gynnwys pobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr eu cefnogi trwy alwadau 'Cadw mewn Cysylltiad' rheolaidd oddi wrth staff Porth Cymorth Cynnar y Cyngor. Roedd y galwadau hyn yn cadarnhau eu bod yn iawn ac roeddent yn darparu cyfleoedd iddynt siarad â rhywun arall yn ystod y cyfnod clo. Roedd hyn o gymorth i leihau ynysu cymdeithasol ac unigrwydd.



Cymunedau Cryf

Mae Amgueddfa Ceredigion yn falch iawn o fod wedi derbyn £115,894 o gyllid datblygu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer y prosiect canlynol: Perthyn: Archwiliad o sut y gall casgliadau greu cymuned yng Ngheredigion.

Mae Perthyn yn brosiect uchelgeisiol sy'n ceisio sicrhau y gall pob un o drigolion Ceredigion ddod o hyd i rywbeth yng nghasgliad yr amgueddfa sy'n taro tant â'u hymdeimlad o hunaniaeth a'u

rhywedd, eu hethnigrwydd, eu credoau, eu rhywioldeb, eu gallu, neu nodweddion eraill y maent yn uniaethu â nhw.



Ceredigion Cysylltiedig

Mae'r ddwy flynedd diwethaf wedi dangos pa mor hanfodol y mae cysylltedd digidol i fusnesau, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Cymru. Mae buddsoddi a lobio parhaol gan y Cyngor wedi arwain at wella cysylltedd digidol ar draws y Sir. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth o ran cysylltiad ffeibr i'r adeilad wedi cynyddu o 20% i 28.3%. Mae gwell cysylltedd digidol yn cynyddu arloesedd a chynhyrchiant ar draws y sir, ond mae hefyd yn cadw pobl a chymunedau yn gysylltiedig. Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi gwelliannau i gysylltedd digidol, megis cyflwyno Band Eang 4G, i helpu darparu'r cysylltiadau y mae eu hangen ar fusnesau a phobl, gan fynd i'r afael ag allgáu digidol a chynyddu cyfleoedd i bawb.



Amgylchedd Iach

Ym mis Mehefin 2022, cynhaliwyd Gwobrau Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol Cymru yng Nghaerdydd. Enillodd Cyngor Sir Ceredigion ddwy wobwr am eu Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni.

Cynhaliwyd y gwobrau hyn i gydnabod gwaith rhagorol y sector arbed ynni yng Nghymru. Diben cynlluniau arbed ynni sydd ar waith ledled Cymru yw helpu perchnogion tai i leihau eu biliau ynni, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn rhedeg

y Cynllun Hyblygrwydd ECO a Chynllun Clyd Ceredigion ers nifer o flynyddoedd. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae nifer o fesurau inswleiddio a systemau gwresogi wedi'u cyflwyno mewn amrywiol adeiladau i wella eu heffeithlonrwydd o ran ynni.

Erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi buddsoddi dros £5 miliwn mewn prosiectau effeithlonrwydd egni ac arbedion carbon. Mae'r buddsoddiadau yma wedi arbed £2.8miliwn hyd yn hyn.

EIN CYNGOR

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, mae gan Gyngor Sir Ceredigion 38 o gynghorwyr sy'n cynrychioli 34 o wardiau ar draws y Sir.

Plaid Cymru sy'n arwain y weinyddiaeth newydd. Mae ganddi 21 o gynghorwyr ar y Cyngor. Hefyd, etholwyd 9 cynghorydd annibynnol, 7 cynghorydd o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ac 1 cynghorydd o'r blaid GWLAD. Arweinydd newydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Bryan Davies a Chadeirydd y Cyngor ar hyn o bryd yw'r Cynghorydd Ifan Davies.

Mae Cynghorwyr lleol yn cael eu hethol gan y gymuned i benderfynu sut y dylai'r Cyngor gyflawni ei amrywiol weithgareddau. Maent yn cynrychioli budd y cyhoedd ynghyd â'r unigolion sy'n byw yn y ward y mae'r Cynghorydd wedi'i

ethol iddi.

Arferai etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gael eu cynnal bob pedair blynedd ond bellach maent yn cael eu cynnal bob pum mlynedd er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro ag etholiadau'r Senedd. Golyga hyn y bydd etholiad nesaf Cyngor Ceredigion yn cael ei gynnal ym mis Mai 2027.

Mae mwy o wybodaeth am Bwyllgorau'r Cyngor gan gynnwys yr Adroddiadau, yr Agendâu a'r Cofnodion ar gael ar wefan y Cyngor:


[https://cyngor.ceredigion.gov.uk/mgListCom
mittees.aspx?bcr=1](https://cyngor.ceredigion.gov.uk/mgListCommittees.aspx?bcr=1)

ARIAN A CHYLLID

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ei gyllideb bob blwyddyn a thros y tair blynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r camau cyffredinol i reoli prif adnoddau'r Cyngor er mwyn iddo fodloni ei amcanion.

Mae gwariant y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant. Er gwaethaf pandemig Covid-19 yn ystod 2020, mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddangos awydd agored i wella gwasanaethau a buddsoddi mewn gwell adnoddau a chyfleusterau.

Amcan ariannol y Cyngor yw defnyddio ei adnoddau mewn ffordd ofalus a chyfrifol gan sicrhau bod cydnerthedd ariannol y Cyngor yn cael ei gynnal a'i gryfhau. Er mwyn cwrdd â'r heriau cyllidebol a wynebir, bydd y Cyngor yn parhau i weithredu arbedion effeithlonrwydd cefn swyddfa a datblygu dulliau eraill o gyflawni gan gynnal gwasanaethau ar yr un pryd. Mae'r siartiau canlynol yn dangos o le mae'r arian yn dod a sut mae'n cael ei wario.




- Llywodraeth Cymru (72%)
- Treth y Cyngor (28%)



Ysgolion a Diwylliant	£48.86m
Porth Cynnal (Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes)	£21.95m
Cyllid a Chaffael	£20.86m
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	£16.31m
Porth Gofal (Gwasanaethau Ymyraeth wedi'i Thargedu)	£10.24m
Grŵp Arweiniol	£6.94m
Cyswllt Cwsmeriaid	£5.45m
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn	£4.48m
Gwasanaethau Democratiaidd	£3.96m
Economi ac Adfywio	£3.28m
Porth Cymorth Cynnar (Llesiant a Dysgu Cymunedol)	£3.16m
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	£2.18m
Pobl a Threfniadaeth	£2.01m
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	£1.48m

Yn seiliedig ar wariant y gwasanaethau yn 2020/21, dim ond y cyllid refeniw a ddangosir. Nid yw'n cynnwys yr incwm y mae'r Cyngor yn ei wneud.

Gweinyddiaeth Wleidyddol Cyngor Sir Ceredigion yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022



- Plaid Cymru (21)
- Annibynnol (9)
- Gwlad (1)
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (7)

Cynhaliwyd etholiadau Llywodraeth Leol ledled Cymru ar 5 Mai 2022

TRAWSNEWID

Mae Ceredigion yn buddsoddi mewn technoleg newydd i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu i'n cwsmeriaid. Rydym yn gwneud hyn i fodloni'r galwadau cynyddol sydd ar y Cyngor ac i sicrhau bod y gwasanaethau yn gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn cynnig gwell profiad i'n cwsmeriaid.

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes (sy'n trawsnewid gofal cymdeithasol) a'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid, 'CLIC', yn ddwy enghraifft dda o hyn.

Llesiant Gydol Oes

Amcan y blaenoriaethau yw caniatáu i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion.

O ystyried bod yr adnoddau'n brin, mae darparu cymorth i bobl o bob oed a phobl sydd ag anghenion gwahanol yn her sylweddol i'r Cyngor. Mae proffil cymdeithas a'r ddemograffeg wedi

newid yn fawr dros y ddegawd ddiwethaf. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig. Hefyd, mae mwy o bobl hyn yn byw yng Ngheredigion. O ganlyniad i hyn oll, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hyn.

Mae'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant yn amlinellu'r weledigaeth a'r dull gweithredu ar gyfer trawsnewid y modd y bydd llesiant a diogelwch pobl Ceredigion yn cael eu cefnogi.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu model gweithredu Gydol Oes a Llesiant a'i fwriad yw sicrhau bod pobl yn cael y lefel a'r math iawn o gefnogaeth ar yr adeg iawn er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a sicrhau y gall pobl fod mor annibynnol â phosibl gan ganiatáu iddynt aros yn eu cartref eu hunain yn eu cymuned eu hunain

lle bynnag y bo modd.

Cyswllt Cwsmeriaid

Tîm CLIC yw wyneb a llais Cyngor Sir Ceredigion. Os byddwch, er enghraifft, yn cysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i ofyn cwestiwn am finiau, gwirio manylion eich Treth Cyngor neu gyflwyno cais i'r Tîm Tai, byddwch yn dod i gysylltiad â gwasanaeth CLIC.

Mae ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid yn enghraifft o'r modd y gellid defnyddio technoleg newydd i wella profiad y cwsmer. Canolfan Gyswllt y Cyngor sy'n derbyn ac yn olrhain yr holl ymholiadau cychwynnol a wneir ac mae'n gwneud hynny drwy'r system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM). Mae hon yn ffordd ymarferol iawn o reoli'r nifer cynyddol o ymholiadau a ddaw i law ac mae'n darparu cyfle i gynnig gwasanaeth o ansawdd uwch sydd wedi'i deilwra gan wella profiad y cwsmer. O ran ein cwsmeriaid:

- Mae'n haws gwneud y cyswllt cychwynnol - dim ond un rhif ffôn ac un cyfeiriad e-bost.
- Mae ein hymgyngorwyr wedi'u hyfforddi i ddelio ag ystod eang o ymholiadau – felly pan fo modd, caiff ymholiadau eu datrys yn ystod y cyswllt cyntaf.
- Ni fydd angen ailadrodd yr un stori bob tro y bydd cwsmer yn ffonio - bydd y wybodaeth yn cael ei chadw ar y system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) a bydd y Cyngor felly yn gallu cynnig ymateb cyflymach a mwy pwrpasol wrth ddatrys yr ymholiad.
- Darperir gwasanaethau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl eu dewis iaith.

CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL YN 2021/22

114,060

nifer y galwadau ffôn y
gwnaeth CLIC ymdrin â nhw
yn ystod 2020/21

15%

canran y galwadau ffôn
Cymraeg
(16,677 o alwadau)

38,508

nifer yr e-byst a atebwyd
gan CLIC yn ystod
2020/21

77,921

nifer yr ymholiadau a
gofnodwyd gan CLIC yn
ystod 2020/21 (cynnydd o
21,000 o gymharu â'r
flwyddyn flaenorol)

Tudalen 15

Amcanion y Model Gydol Oed a Llesiant

1. HYRWYDDO IECHYD A LLESANT CADARNHAOL A CHEFNOGI POBL I HELPŪ EU HUNAIN
2. CRYFHAU TEULUOEDD ER MWYN I BLANT A PHOBL IFANC GAEL AROS GYDA'U TEULU
3. GALLUOGI UNIGOLION I FYW'N ANNIBYNNOL YN EU CYMUNEDAU EU HUNAIN
4. MYND AT'N GYMESUROL WRTH GYNNIG GOFAL A CHYMORTH A REOLIR
5. AMDDIFFYN UNIGOLION A'U CADW'N DDIOGEL RHAG CAMDRINIAETH, NIWED AC ESGEULUSTOD



EIN GWELEDIGAETH A'N BLAENORIAETHAU

Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 yn esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei bedwar Amcan Llesiant Corfforaethol neu Flaenoriaethau Strategol.

Prif bwrpas Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw darlunio sut y bydd yr Awdurdod yn cefnogi ac yn hybu cynaliadwyedd a llesiant dinasyddion, drwy ei weledigaeth hirdymor a'i amcanion strategol.

Bydd yr Amcanion Llesiant Corfforaethol yn caniatáu i ni ddarparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau Ceredigion. Dewiswyd y rhain ar ôl ymgysylltu â'r cyhoedd, ystyried Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion a gwrandao ar ddyheadau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd.

Cam cyntaf y broses oedd cynnal dadansoddiad pen bwrd o amrywiol ddarnau o dystiolaeth, er mwyn nodi'r prif faterion sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion Ceredigion. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, a oedd yn darparu darlun cynhwysfawr o lesiant yn y sir, gan gynnwys gwaith ymgysylltu eang â'r cyhoedd yn ystod 2021. Trwy hyn, cawsom wybod am bryderon pobl a'r meysydd y byddent yn dymuno eu gweld yn cael eu gwella.

Ar ôl hynny, tynnwyd yr adborth ynghyd a'i ddehongli gan ystyried blaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd dros y bum mlynedd nesaf a'i gymharu â'r Asesiad i nodi unrhyw flychau. Cynhaliwyd gweithdai gyda gwasanaethau'r Cyngor fel cam arall yn y broses ac aethpwyd ati i ddatblygu'r camau unigol y byddai angen eu cymryd i gyflawni'r Amcanion.

Ymgynghorwyd ynghylch y Strategaeth a'r Amcanion Llesiant drafft ym mis Awst a mis Medi 2022. Dyma'r amcanion terfynol a gyfunwyd iddynt:

- **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth**
- **Creu cymunedau gofalgarg ac iach**
- **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu**
- **Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd**

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mlaen ein meddyliau wrth inni ddatblygu'r amcanion. Gwnaethom nodi'n benodol sut y gallem ni gyfrannu gymaint â phosibl at y Nodau Llesiant Cenedlaethol gan hefyd ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar dudalen 36 ynglŷn â'r modd yr ydym ni wedi asesu ein hamcanion gan ddefnyddio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy hyn.

Rydym yn adolygu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol a'n camau bob blwyddyn i sicrhau mai dyma yw'r Amcanion iawn i Geredigion a'n bod ni yn eu cyflawni nhw.

Mae'r Strategaeth yn nodi'n glir ein blaenoriaethau ac mae'n dangos ein hymrwymiad i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn y Sir.

Gweledigaeth Cyngor Sir Ceredigion:

Darparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a dwyieithog sy'n cynnig gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, cefnogi amgylchedd iach a hyrwyddo llesiant ein pobl a'n cymunedau

Ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol:



CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gydweithio i greu Cymru gynaliadwy. Y bwriad yw helpu i greu Cymru yr ydym ni i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae yna 7 nod llesiant cenedlaethol i Gymru sy'n amlinellu gwledigaeth gyffredin i bob corff cyhoeddus weithio tuag ati (wedi'i dangos ar y dde).

Gwyddom ein bod yn wynebu heriau yng Ngheredigion - mae pandemig COVID-19 wedi bod yn ddigynsail o ran ei effaith ar bobl o bob cefndir, ond yn fwy diweddar mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o aelwydydd yn y Sir. Mae hefyd angen tyfu'r economi leol a chreu cyfleoedd i bobl leol, mynd i'r afael â thlodi a chostau uchel lleu, ynghyd â'r gostyngiad ym mhoblogaeth y Sir a fydd yn cael effeithiau pellgyrhaeddol.

Mae **Cyngor Sir Ceredigion** yn cydweithio gyda'i bartneriaid lleol a rhanbarthol i fynd i'r

afael â'r materion cymhleth hyn er mwyn creu'r Ceredigion a ddymunwn.

Mae ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol wedi'u datblygu yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion lleol ac ar farn pobl leol fel y nodwyd yn Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion. Mae'r Asesiad yn darparu adolygiad cynhwysfawr o lesiant yn y Sir, ac roedd yr ymgysylltu eang â'r cyhoedd a gynhaliwyd yn ystod haf a hydref 2021 yn sail iddo.

Bydd y camau rydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol yn ein helpu i wella canlyniadau i bobl leol a hefyd yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol. Byddwn yn defnyddio'r camau a amlinellir ar dudalennau 11-31 i fesur y cynnydd a wnawn o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r


Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r modd y mae pob un o'n hamcanion llesiant yn cyfrannu at Nodau Llesiant cenedlaethol Cymru.

Mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion** yn dwyn ynghyd arweinwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau gwasanaethau cyhoeddus y Sir, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir drwy gryfhau cydweithio ar draws gwasanaethau'r Sir.

Mae hyn yn sicrhau bod Amcanion Llesiant Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi'u halinio i ganolbwyntio ar anghenion blaenoriaeth y Sir, a chynyddu'r cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol. Bydd y Cynllun Llesiant Lleol newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

Y 7 NOD LLESIANT CENEDLAETHOL



Tudalen 17

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi 7 Nod Llesiant ar waith.

Rhaid i bob corff cyhoeddus weithio i gyflawni pob un o'r nodau.

	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cydlynus	Diwylliant	Byd-eang
▼ Amcan Llesiant Corfforaethol	Yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol canlynol ▼						
Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth	●			●		●	●
Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach			●	●	●	●	●
Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu	●		●	●		●	●
Creu Cymunedau Cynaliadwy sy'n fwy Gwyrdd ac sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd	●	●	●	●	●	●	●



HYBU'R ECONOMI, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH

Mae Canolfan Bwyd Cymru yn ganolfan technoleg bwyd pwrpasol sydd yn cynnig cyngor, gwasanaethau technolegol a hyfforddiant i fusnesau newydd, busnesau bach a chanolig a chynhyrchwyr bwyd presennol. Mae gan y ganolfan adeilad Ymchwil a Datblygu pwrpasol gyda chyfleusterau heb eu hail i gynhyrchwyr bwyd ddatblygu cynnyrch newydd a phresennol.

Ein blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r Amcan Llesiant Corfforaethol yw:

- Datblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru gwerth £110m
- Cefnogi busnesau lleol wrth wella o COVID-19
- Cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn y Sir
- Creu cyfleoedd gwaith newydd i bobl ifanc medrus
- Hybu cyfle cyfartal mewn cyflogaeth
- Cyflawni twf economaidd cynaliadwy
- Mynd ar drywydd y Cynllun Datblygu Lleol
- Blaenoriaethu cynnyrch o ffynonellau lleol a chadwyni cyflenwi
- Gwella Band eang 4G
- Cyllid teg o fewn rhaglen Arfor
- Gwella cysylltedd digidol, a chysylltedd o ran trafndiaeth ac ynni
- Mynd i'r afael a thlodi yng Ngheredigion
- Cefnogi rhieni sy'n gweithio yng Ngheredigion
- Gwella'r ddarpariaeth sgiliau a chyfleoedd dysgu i bobl 16+ oed
- Datblygu prentisiaethau yn y Sir ymhellach



Cynnydd a Wnaed

- Mae partneriaeth economaidd Tyfu Canolbarth Cymru wedi'i sefydlu ac wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad Bergen Twf gwerth £110m i Ganolbarth Cymru dros y 10 mlynedd nesaf ar gyfer prosiectau ar draws y rhanbarth.
- Mae £10.8m o fuddsoddiad wedi'i sicrhau o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU i helpu i drawsnewid Harbwr, Hen Goleg a phromenâd Aberystwyth.
- Sicrhawyd gwerth 2.8m o fuddsoddiad o Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU, ar gyfer 12 cynllun cymunedol ar draws y sir.
- Arweiniodd cynllun Grant Cyfalaf Bach a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau 2021 at bron i £500,000 o fuddsoddiad grant mewn busnesau Ceredigion, gan ddenu £631,000 pellach o gyllid gan y sector preifaf. Arweiniodd y cymorth at greu 146 o swyddi newydd yng Ngheredigion, a chafodd 408 o swyddi eraill eu diogelu mewn 81 o fusnesau drwy'r buddsoddiadau.
- Cyhoeddwyd Strategaeth Economaidd newydd Ceredigion ym mis Mawrth 2021, roedd yn amlinellu sut y byddwn yn cydweithio tuag at sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy cydnherth i Geredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweithredoedd bydd yn mynd i'r afael â heriau a chyfluoedd sydd yn bodoli yn yr economi.
- Arian allanol o hyd at £20m wedi'i sicrhau, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Bro, y Gronfa Adfywio Cymunedol, Trawsnewid Trefi, y Gronfa Rhyddhau Tir, y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau, Helix, Arfor, Cyfalaf Busnes a chynlluniau grant refeniw.
- Mae gan Gyngor Sir Ceredigion un o'r rhwydwaith y Rhyngwyd Pethau (IoT) mwyaf datblygedig sydd bellach wedi'i osod ar draws y sir (LoRaWAN), sy'n rhoi'r cyfle i wella perfformiad gwasanaethau, ac yn galluogi busnesau i harneisio a manteisio ar alluoedd IoT.
- Cefnogi'r sector annibynnol trwy weithio ar y cyd gan ddarparu cymorth, cyllid ac adnoddau ar y cyd. Darparu adnoddau staffio ychwanegol, offer yn ogystal â chyngor iechyd a diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau.
- Arwain ar waith y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) i ddatblygu ymagweddau adeiladu cyfoeth cymunedol at bolisiau ac arferion caffael lleol.
- Cefnogwyd busnesau lleol yn ystod pandemig COVID-19 drwy weinyddu 8,835 o daliadau Grant Busnes ledled Ceredigion gwerth £49m
- Mae lobiio sylweddol gan Gyngor Sir Ceredigion ac eraill wedi arwain at ddarpariaeth o 31.8% o fand eang ffeibr llawn gan roi gallu dros 100 Mbps. Mae'r lawrlwythiad cyfartalog ar gyfer y sir gyfan o 79Mbps ar hyn o bryd yn un o'r lefelau uchaf ar gyfer awdurdod lleol gwledig.
- Mae C4W+ Ceredigion a Gweithffyrdd+ wedi parhau i helpu pobl nad ydynt mewn cyflogaeth i gael gafael ar hyfforddiant, profiad gwaith, gwirfoddoli a chyfluoedd gwaith.
- Cefnogwyd busnesau lleol yn ystod pandemig COVID-19 - rheolwyd 8,900 o ymholiadau'n ymwneud â COVID gan Wasanaeth Cyswllt Cwsmer Ceredigion 'CLIC' yn ystod y flwyddyn 2020/21, gan gynnwys ymholiadau yn ymwneud â Grantiau Busnes, y Gronfa Adferiad Diwylliannol a'r Cynllun Grant Cyfalaf Busnesau Bach. Roedd dros 2,000 yn unig yn ymwneud â'r Grant Trethi Annomestig yn helpu busnesau yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth, hamdden a manwerthu nad oedd yn hanfodol, oedd wedi gorfod cau.
- Rheolodd yr Uned Gofal Plant y pilot o lwyfan digidol prawf byw'r Cynnig Gofal Plant – cefnogi'r gwaith o'i gyflwyno ledled Cymru erbyn Ionawr 2023.
- £348,961 wedi'i brosesu mewn grantiau cynaliadwyedd i'r sector gofal plant 2020-22.
- £492,090 ar gael mewn grantiau cyfalaf bach i'r sector gofal plant 2020-2022.
- £821,805 o daliadau Cynnig Gofal Plant a wnaed i Ddarparwyr Gofal Plant Ceredigion yn 2021-2022.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23

Cefndir

Mae Ceredigion yn sir hyderus, ddeniadol lle mae llawer o'n pobl yn ffynnu ac yn datblygu, lle mae llawer wedi sefydlu busnesau llewyrchus a llwyddiannus.

Fodd bynnag, mae ein maint a'n lleoliad yn golygu ein bod yn wynebu heriau i dyfu'r economi leol, ond yn yr un modd mae yna lawer o gyfluoedd i ni fanteisio'n llawn arnynt wrth addasu'r sir i ddyfodol carbon isel a mwy o ddigideiddio.

Gellir crynhoi'r heriau allweddol fel yr angen i ddenu busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, creu mwy o gyfluoedd gwaith a chyflogau uwch, darparu cyfluoedd i bobl iau aros yn y sir, a chynyddu enillion cyfartalog y Sir o gymharu â Chymru gyfan.

Y cryfderau a phwyntiau gwerthu unigryw'r economi leol yw bod gan fusnesau newydd rai o'r cyfraddau goroesi gorau ledled Cymru, bod gan ein gweithlu sgiliau a chymwysterau llawer uwch na'r cyfartaledd, ac mae'r economi wybodaeth yn gryf gyda dwy Brifysgol sydd â sgôr uchel.

Rydym wedi datblygu ein Hamcan Llesiant Corfforaethol i adeiladu ar ein cryfderau fel sir, manteisio'n llawn ar y cyfluoedd sydd ar gael i ni a mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu i dyfu'r economi leol. Bydd hybu'r economi, cefnogi ein busnesau lleol a galluogi ein pobl i gael mynediad at gyflogaeth a gyrfaedd o safon yn ein helpu i gyflawni hyn.

Hybu'r Economi

Byddwn yn parhau i symud Bergen Twf Canolbarth Cymru yn ei blaen er mwyn gwireddu manteision y buddsoddiad o £110m yn economi canolbarth Cymru. Bydd y prosiectau a gefnogir gan y Fargen Twf yn ysgogi buddsoddiad ychwanegol yn yr economi ac yn gwneud y mwyaf o effaith economaidd Ceredigion, megis creu swyddi ychwanegol a thwf economaidd o hyd at £700m.

Rhan allweddol o dyfu'r economi leol fydd cyflawni Strategaeth Economaidd Ceredigion sy'n nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y 15

mlynedd nesaf. Byddwn yn parhau i gyflawni'r camau gweithredu yn y Strategaeth, ac yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y Sir i nodi a darparu ymyriadau pellach i ddod â thwf economaidd i'r Sir.

Bydd mynd i'r afael â thlodi a chefnogi rhieni sy'n gweithio yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor, a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar Is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i nodi camau gweithredu i liniaru'r effeithiau.

Cefnogi Busnesau

Byddwn yn parhau i gefnogi busnesau lleol i wella ar ôl COVID-19, ond hefyd yn gweithio i gefnogi busnesau newydd yng Ngheredigion a chefnogi busnesau presennol i ehangu a thyfu.

Bydd rhan o hyn yn cynnwys blaenoriaethu cynnyrch o ffynonellau lleol a chadwyni cyflenwi ym musnes y cyngor er mwyn cadw cymaint o arian a chynifer o swyddi â phosibl o fewn y gymuned leol. Lle bo modd byddwn yn torri contractau i fyny er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyflenwyr lleol.

Galluogi Cyflogaeth

Yn ogystal â chefnogi creu swyddi, byddwn yn parhau i hybu cyfle cyfartal mewn cyflogaeth, hybu twf cynhwysol, hybu cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth ac annog mwy o fuddsoddiad mewn addysg a sgiliau trwy gydol bywyd gwaith.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy wella'r ddarpariaeth chyfluoedd sgiliau a dysgu yn 16 oed a datblygu prentisiaethau ymhellach yn y Sir. Byddwn yn sefydlu llwybr datblygu sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc a'r rhieni ag anabledd i hybu cynhwysiant yn y gweithlu.

I rieni, byddwn yn cefnogi darpariaeth gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer pob plentyn dwy oed, yn ehangu'r Cynnig Gofal Plant i gynnwys rhieni/gwarcheidwaid sydd mewn addysg neu hyfforddiant, a hefyd ehangu Dechrau'n Deg i helpu plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn yr ysgol.

BETH FYDD YN HYBU ECONOMI CEREDIGION, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH?

Hybu'r Economi

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Cwblhau'r gwaith i amddiffyn yr arfordir yn Aberaeron, Aberystwyth, Borth a Llangrannog	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Cefnogi datblygiad darpariaeth harbwr y Sir	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Parhau i ddatblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru gwerth £110m	Economi ac Adfywio
Mynd ar drywydd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion	Economi ac Adfywio
Cefnogi cyflwyno Band Eang 4G	Economi ac Adfywio
Edrych ar y cyfleoedd i ddatblygu aber Teifi i alluogi mynediad llongau môr	Economi ac Adfywio Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Cefnogi cais Aberystwyth i ddod yn Ddinas Llenyddiaeth UNESCO	Economi ac Adfywio
Mae angen i ni ddatblygu ein sylfaen o asedau ffisegol a naturiol sy'n cyfrannu'n llawn at weithrediad effeithlon Cyngor Sir Ceredigion, ond sydd hefyd yn cyfrannu at dwf yr Economi yng Ngheredigion wrth atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn natur:	
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y rhaglen Asedau yn gysylltiedig â'n huchelgeisiau corfforaethol ac economaidd ac yn bwydo i mewn i'r rhaglen Gyfalaf hirdymor ac yn blaenoriaethu cyfrannu at Ddyletswydd Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) a nod Cymru sy'n Ecolegol Gydnerth 	Economi ac Adfywio

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Bydd twf economaidd yn cael ei gyflawni'n gynaliadwy – wrth hefyd yn parhau i chwarae ein rhan wrth ymdrin ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a helpu ein cymunedau i ffynnu ledled Ceredigion:	
<ul style="list-style-type: none"> Cysylltedd Digidol - yn syml, ein huchelgais yw sicrhau nad yw trigolion a busnesau yng Ngheredigion dan anfantais oherwydd prinder cysylltedd digidol. Cydnabyddir yn eang bod cysylltedd digidol bellach yn cael ei ystyried yn rhan hanfodol o fywyd cartref a bywyd busnes, ac yn bedwerydd cyfleustod. Nid yw'n ymwneud felly â dal i fyny – ond sicrhau bod gennym fynediad a chyfle cyfartal i drefi a chymunedau ar draws y DU. Mae hyn yn golygu bod uchelgais i ddarparu gwasanaethau sy'n cyfateb i lefelau ffibr llawn uwch na'r cyrhaeddiad presennol o 80%. Cysylltedd Trafnidiaeth - Er mwyn ysgogi twf economaidd a denu buddsoddiad newydd mae angen i ni wella cysylltedd i Geredigion ac oddi mewn iddi. Byddwn yn adeiladu ar ein cysylltiadau presennol i ddarparu'r rhwydwaith trafndiaeth sydd ei angen i helpu i dyfu'r economi a chynyddu cynhyrchiant. Cysylltedd Ynni - Mae cysylltedd fforddiadwy â rhwydwaith ynni wedi'i ddatgarboneiddio yn rhan hanfodol o'n twf economaidd yn y dyfodol. Ynni yw popeth, hebdo ni allwn gynhesu ein cartrefi, symud o gwmpas, na chael cyflogaeth. Mae agenda datgarboneiddio'r DU yn golygu bod yn rhaid i'r ynni hwn ddod o ffynonellau adnewyddadwy yn y dyfodol. Mae'r sir a'r rhanbarth mewn sefyllfa dda i gyfrannu at ddiwallu'r angen hwn, ond mae seilwaith grid gwael presennol yn rhwystro hyn. 	Economi ac Adfywio Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Cefnogi'r economi leol trwy sicrhau ei bod yn gweithio yn dda i bobl leol trwy:	Economi ac Adfywio
<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi cais Ceredigion i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU 	
Cefnogi teuluoedd yng Ngheredigion drwy:	
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu canolfan adnoddau i gefnogi teuluoedd agored i niwed / incwm isel 	Porth Cymorth Cynnar



Cefnogi Busnesau

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Ystyrir tlodi fel thema drawsbynciol yn y Cynllun Llesiant Lleol (2023-2028):</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu dangosfwrdd economaidd i fonitro cyflawniad y Strategaeth Economaidd a Thyfu Canolbarth Cymru 	Economi ac Adfywio
<p>Sicrhau aliniad a chysylltiadau ar draws beth sydd yn y Cynllun Llesiant a'r Strategaeth Gorfforaethol i fynd i'r afael â thlodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau aliniad rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â Hybu'r Economi a Mynd i'r afael â Thlodi 	Economi ac Adfywio
<p>Incwm y cartref uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol</p>	Economi ac Adfywio
<p>Cefnogir rhieni sy'n gweithio gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant i rieni plant 3 i 4 oed sy'n gweithio Bydd rhieni/gwarcheidwaid sydd mewn addysg neu hyfforddiant ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant Cefnogi argaeledd gofal plant ar gyfer plant 2 oed Codi ymwybyddiaeth/hyrwyddo Gofal Plant Di-dreth i rieni sy'n gweithio Cefnogi datblygiad a chynaliadwyedd darpariaeth gofal plant cofrestredig 	Ysgolion a Diwylliant

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Cefnogi datblygiad y prosiect Trefi Clyfar yn Aberteifi yn ein trefi eraill yng Ngheredigion</p>	Economi ac Adfywio Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
<p>Blaenoriaethu cynnyrch o ffynonellau lleol a chadwyni cyflenwi ym musnes y cyngor</p>	Economi ac Adfywio
<p>Gwthio am gyllid teg o fewn rhaglen Arfor rhwng dwy ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd</p> <p><i>(Mae Cynllun Arloesi Arfor 2022-25 yn gynllun gwerth £11 filiwn wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru i dreialu dulliau arloesol o hybu entrepreneuriaeth, twf busnes, cydnerthedd cymunedol a'r iaith Gymraeg yn rhanbarth Arfor yn y Gorllewin, siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, Gwynedd ac Ynys Môn).</i></p>	Economi ac Adfywio
<p>Bydd rhagor o fusnesau'n cael eu sefydlu, a busnesau'n tyfu, gan fwynhau'r amgylchedd cadarnhaol ar gyfer twf yma yng Ngheredigion:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ein huchelgais hefyd yw gweld cynnydd yn nifer a chyfran ein busnesau canolog eu maint (yn cyflogi dros 50 o bobl). Yn syml, rydym ni eisiau gweld Ceredigion fel lle gwych i gychwyn busnes ac i dyfu busnes. Byddwn yn gweld busnesau newydd yn cychwyn ar draws ystod o sectorau, sydd yn enwedig wedi canolbwyntio ar ein cryfderau craidd o weithgynhyrchu bwyd, amaethyddiaeth, amaeth-dechnoleg, twristiaeth, gwyddoniaeth amgylcheddol, awyrofod, sbectrwm a diwydiannau ymchwil a datblygu eraill sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Bydd yr economi sylfaenol hefyd yn chwarae rhan bwysig o dwf Ceredigion, gyda chyfluoedd allweddol yn enwedig ym maes adeiladu a gofal. 	Economi ac Adfywio
<p>Ein nod yw bod yn gatalydd ar gyfer creu busnesau newydd yng Ngheredigion a helpu busnesau presennol i dyfu i fod yn fusnesau canolog eu maint.</p>	Economi ac Adfywio

BETH FYDD YN HYBU ECONOMI CEREDIGION, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH?

Galluogi Cyflogaeth

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Atal y draen talent o Geredigion:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu fforwm cyflogwyr cadarn drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yr Economi ac Adfywio, a LL&S Datblygu cysylltiadau ar-lein/cymdeithasol a digwyddiadau dros dro i farchnata rolau/sectorau yng Ngheredigion 	<p>Porth Cymorth Cynnar</p> <p>Pobl a Threfniadaeth</p>

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Bydd arloesi a arweinir gan fenter yn arwain at gyfleoedd swyddi newydd i bobl ifanc fedrus sy'n cael eu haddysgu a'u hyfforddi yn ein hysgolion, colegau a phrifysgolion:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae gennym system addysg ragorol sy'n sicrhau deilliannau rhagorol i ddysgwyr. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr addysg yng Ngheredigion i feithrin perthnasoedd cryfach gyda chyflogwyr, fel bod gwasanaethau addysg a hyfforddiant yn cyd-fynd yn gadarn ag anghenion y cyflogwyr hynny. 	<p>Economi ac Adfywio</p>
<p>Bydd pobl ifanc sy'n dymuno aros yng Ngheredigion, yn ogystal â'r rheini a allai fod eisiau dychwelyd i fyw a gweithio yma neu symud yma am y tro cyntaf, yn gweld Ceredigion fel man cyfle. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cymunedau yn parhau i fod yn lleoedd bywiog lle mae diwylliant a'r iaith Gymraeg yn medru ffynnu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydym am i Geredigion barhau i fod yn lle y mae pobl eisiau byw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Byddwn yn gweithio i ddeall anghenion newidiol ein trigolion, gweithwyr, ymwelwyr, yn ogystal â'r heriau a gynrychiolir gan y newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur i addasu mewn Byd sy'n newid yn sgil pandemig Covid 19 a Brexit. 	<p>Economi ac Adfywio</p>
<p>Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 16 oed gan sicrhau bod dewis eang, priodol, dwyieithog a theg o bynciau yn cael ei gynnig i ddysgwyr, sy'n diwallu eu hanghenion ac yn datblygu eu sgiliau ac yn cefnogi anghenion yr economi leol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal adolygiad o addysg ôl-16 a gweithredu'r argymhellion a gymeradwywyd Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth E-sgol Sicrhau bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei defnyddio ar brosiectau a nodwyd i ddatblygu sgiliau priodol i gefnogi'r economi leol 	<p>Ysgolion a Diwylliant</p>
<p>Cryfhau'r gronfa o ymgeiswyr tra medrus a chymwys yng Ngheredigion trwy</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu prentisiaethau, micro-fenter a menter gymdeithasol ymhellach 	<p>Porth Cymorth Cynnar</p>



Byddwn yn:	Gwasanaeth
Bydd y Bartneriaeth Ddysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei sefydlu gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys i roi ffocws ar gyfer sgiliau yn y Canolbarth, ac i ysgogi twf economaidd drwy sicrhau buddsoddiad yn y sgiliau cywir	Porth Cymorth Cynnar Economi ac Adfywio
Datblygu llwybr datblygu sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc a'r rheini ag anabledd i hybu cynhwysiant yn y gweithlu	Economi ac Adfywio
Codi proffil gweithlu DP PA trwy recriwtio gweithredol	Porth Gofal
Symud ymlaen gyda datblygiad yr hwb darparwyr a chodi proffil y sector a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau	Porth Gofal
Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu cyfleoedd menter gymdeithasol a micro-fenter	Porth Gofal
Mae angen i ni fod ar flaen y gad o ran cyflawni newid yn y naratif lle mae pobl yng Ngheredigion yn teimlo bod cyfleoedd gwirioneddol o ran gyrfaedd a fydd yn eu galluogi i gael y dewis i ddatblygu gyrfaedd ystyrlon yng Ngheredigion:	Economi ac Adfywio
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau darpariaeth effeithiol o'r rhaglenni buddsoddi a sicrhawyd. Lansio rhaglenni datblygu busnes/gyrfa 'Meddalach' e.e. Gwobrau Busnes, gwybodaeth gyrfaedd yn gysylltiedig â chymuned fusnes Ceredigion 	Economi ac Adfywio
Cael cyfle cyfartal i bobl weithio yng Ngheredigion:	
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu llwybr datblygu sgiliau cyflogadwyedd ar draws y Pyrrth i bobl ifanc ac i'r rheini gydag anabledd i hybu cynhwysiant yn y gweithlu 	Porth Gofal

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Bod â sector gofal annibynnol cynaliadwy a chydnerth	Porth Gofal
Pob disgybl i gael cyrchfan	
<ul style="list-style-type: none"> Datblygiad prosiect 'Sgiliau Bywyd a Sgiliau Gwaith' i'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi ymddieithrio. Datblygu/cryfhau llwybrau adnabod cynnar ar y cyd i sicrhau bod y rheini y nodir eu bod mewn perygl o gael eu gwahardd, ymddieithrio neu ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill yn cael cymorth cyn gynted â phosibl 	Porth Cymorth Cynnar
Pobl o bob oed i gael llwybr dysgu:	
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu llwybr gyrfa ar gyfer ôl-16 ar draws gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion, gan gynnwys cyfleoedd o ran profiad gwaith, gwirfoddoli, hyffordddeaethau a prentisiaethau 	Porth Cymorth Cynnar

CREU CYMUNEDAU GOFALGAR AC IACH

Mae Rhaglen Gydol Oed a Llesiant y Cyngor yn trawsnewid gofal cymdeithasol yng Ngheredigion. Mae rhoi cefnogaeth i bob oed ac angen yn her sylweddol i'r Cyngor gydag adnoddau cyfyngedig. Mae proffil cymdeithas a demograffeg wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf ac mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny.

Mae ein model gweithredu Gydol Oed a Llesiant wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl yn cael y lefel a'r math cywir o gymorth ar yr amser cywir. Mae'n anelu i atal, lleihau neu oedi'r angen am gefnogaeth barhaus, a chynyddu annibyniaeth pobl a gallu aros yn eu cartref eu hunain yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd. Mae'r Rhaglen yn y broses o gael ei rhoi ar waith a bydd yn rhedeg tan 2027.

Mae Ceredigion wedi ymateb i'r heriau o ran darparu gofal cymdeithasol drwy symud tuag at gyfuno'r gwasanaethau plant ac oedolion a oedd ar wahân yn flaenorol yn un Gwasanaeth Gydol Oed a Llesiant. Mae hyn yn dileu rhwystrau adrannol, yn darparu gwasanaeth gydol oed mwy cyson i ddefnyddwyr ac yn cynnal sgiliau generig a hyblygrwydd staff. Yn 2021, cymeradwyodd y Cyngor y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant ar gyfer 2021-2027 a'r cynllun gweithredu ar gyfer Ceredigion.

Ein blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r Amcan Llesiant Corfforaethol yw:

- **Darparu ar gyfer anghenion gofal ein poblogaeth**
- **Cyflwyno'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant**
- **Hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion**
- **Lansio Canolfannau Llesiant ar draws y Sir**
- **Mynd ar drywydd mentrau i hyfforddi a recriwtio staff Gofal Plant a gofal cymdeithasol**
- **Datblygu cyfleuster gofal ychwanegol Cylch Caron yn Nhregaron**
- **Darparu ar gyfer anghenion gofal ein poblogaeth**
- **Datblygu seibiannau/anadliad gofalwyr a chefnogi'r dyhead o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru**
- **Cefnogi cyfleusterau iechyd meddwl cymunedol**
- **Annog a galluogi pobl i fod yn gorfforol egniol fel y gallant elwa ar iechyd a lles cadarnhaol**
- **Datblygu cynllun gwella ar gyfer darpariaeth strategol cyfleusterau i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn y sir**
- **Gwella rôl Cysylltwyr Cymunedol i gefnogi datblygiad cymunedau cydnerth**
- **Datblygu digwyddiadau cyfranogiad ymhellach i sicrhau bod gan gymunedau lais**
- **Datblygu a chynyddu nifer y rhaglenni gweithgareddau allgwricwlaidd a gwyliau cyffredinol â ffocws**
- **Datblygu a chynyddu nifer y grwpiau a rhaglenni cymorth**

** Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi pobl a'u teuluoedd i gael mynediad at gyngor a chymorth a ddarperir gan y trydydd sector, yn ogystal â nodi gwasanaethau a grwpiau priodol, yn eu cymunedau eu hunain, megis grwpiau cymdeithasol a allai helpu i gyfrannu at eu llesiant*



Cynnydd a Wnaed

- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi parhau i weithredu Safonau'r Gymraeg a datblygu gweithdrefnau i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i gael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith. Mae hefyd wedi gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ariannu'r rhannol diwtor iaith "Cymraeg yn y Gweithle" er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i staff y Cyngor ddysgu'r iaith a magu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio ar y cyd â'i bartneriaid drwy'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog i gyflawni Strategaeth y Gymraeg Ceredigion 2018-2023, sy'n cyfrannu at gyflawni targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 wedi'i gyhoeddi, sy'n rhan annatod o weledigaeth y Sir o ddatblygu dinasyddion gwirioneddol ddwyieithog.
- Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus iawn yng Ngheredigion yn 2022. Roedd yn gyfle unigryw i ddathlu iaith a diwylliant yr ardal a Chymru ar y llwyfan cenedlaethol. Mae'r Eisteddfod yn un o gonglfeini'r Gymraeg, a oedd yn cynnig cyfleoedd pwysig i bobl siarad yr iaith ac i atgyfnerthu eu hyder yn eu sgiliau Cymraeg.
- Fel rhan o'i waith atal, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhoi cydnabyddiaeth a chefnogaeth lawn i rôl gofalgwyr, yn enwedig trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer seibiant, gan ganiatáu i ofalwyr gael seibiant o'r hyn a all fod yn rôl heriol 24/7.
- Gan weithio gyda Chymdeithas Tai Wales and West, rydym wedi hwyluso datblygiad arloesol Tai Gofal Ychwanegol Maes y Môr yn Nhrefechan sy'n helpu pobl fregus i barhau i fyw'n annibynnol yn ôl lefel y gofal sydd angen ar yr unigolyn.
- Cwblhau Cyfleuster Cymorth Cymunedol gwerth £100k Canolfan Steffan yn Llanbedr Pont Steffan, a chyflawni'r gwaith adnewyddu gwerth £150k yng Nghanolfan Ddydd Canolfan Padarn yn Aberystwyth.
- Mae trefniadau comisiynu ar gyfer y ddarpariaeth breswyl newydd i Blant Cymhleth wedi cychwyn.
- Gwneud y mwyaf o Grant Cyfleusterau i'r Anabl a Chyllid cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addasiadau i gartrefi, er mwyn galluogi pobl i aros yn eu

cymunedau.

- Defnyddio Grant Tai Cymdeithasol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu Tai Fforddiadwy y mae mawr eu hangen i'w rhentu.
- Dyrannu Tai Cymdeithasol drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin, gan ganiatáu 5 ardal i ymgeiswyr gan roi mwy o ddewis iddynt o ran lle y maent hwy a'u teulu yn dymuno byw.
- Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2020-2024 wedi'i gyhoeddi i sicrhau bod gan drigolion a rhanddeiliaid Ceredigion lais i ddylanwadu ar ddatblygiad polisiâu a strategaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.
- Cyhoeddwyd Strategaeth Mynd i'r afael â Chaledi i helpu lleddfau effaith COVID-19 a'r argyfwng costau byw i'r rheini sydd mwyaf agored i niwed yng Ngheredigion.
- Mae Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus wedi'u hadnewyddu ar gyfer Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth i ymdrin â niwsans neu broblemau mewn ardal sy'n achosi niwed i ansawdd bywyd y gymuned leol.
- Ailfywiogi gwaith Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a chyflwyno Protocol Sbardun Cymunedol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion.
- Cyflwyno cyfarfodydd monitro tensiwn wythnosol aml-asiantaeth i fynd i'r afael ag arwyddion cynnar tensiynau cymunedol trwy ymyrraeth gynnar/gwaith ataliol ar sail partneriaeth.
- Wedi'i roi ar waith gyda sefydliadau partner, cynlluniau peilot seiliedig ar le yn Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth i fynd i'r afael â lles mewn cymunedau ar sail angen.
- Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer ein Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) o 21 sesiwn wythnosol yn 2014 i 75 sesiwn yr wythnos yn 2020.
- Cyflwyno Rhaglen Cerdded er Lles yn 2020.
- Wedi ennill Achrediad Arian Insport gan Chwaraeon Enabledd Cymru.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23

Cefndir

Mae 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014' yn gosod gofyniad cyfreithiol ar y Cyngor i ddatblygu ystod o strategaethau ymyrraeth gynnar ac atal sy'n cynnwys trefniadau cydweithredol gyda chymunedau a'r sector gwirfoddol i gefnogi byw'n annibynnol.

Mae gan Geredigion boblogaeth sy'n heneiddio. Disgwylir y bydd hyn yn rhoi straen sylweddol ar ein gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig ein gwasanaeth iechyd a gofal lleol.

Bydd creu cymunedau gofalgwr ac iach yn gwella llesiant trwy gefnogi byw'n annibynnol, atal problemau yn y dyfodol, darparu ar gyfer anghenion gofal, a chefnogi llesiant meddyliol yn ogystal â chorfforol yn dilyn pandemig COVID-19.

Creu Cymunedau Gofalgwr

Mae Rhaglen Gydol Oed a Llesiant y Cyngor wedi symud ymlaen yn dda, a byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â thrawsnewid sut y gellir cefnogi iechyd, lles a diogelwch pobl yng Ngheredigion. Nod y Rhaglen yw nodi'n gynnar yr hyn sy'n peri pryder i bobl a cheisio atal rhag gwaethygu, lle bynnag y bo modd, drwy ymateb amserol a chymesur. Bydd y dull hwn o weithredu yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael y lefel a'r math cywir o gymorth, ar yr adeg gywir, i atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chynyddu annibyniaeth pobl a gallu aros yn eu cartref eu hunain yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.

Mae angen lefel uwch o ddarpariaeth mewn tai ar gyfer pobl hŷn, tai â gofal a gofal nyrsio er mwyn cyd-fynd â dyheadau adroddiad Panel Tai Arbenigol Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru, ac i fodloni dewis pobl hŷn i aros yn annibynnol a byw yn eu cartrefi eu hunain. Bydd datblygiad posibl Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron yn Nhregaron a Maes y Môr (cynllun gofal ychwanegol) yn Aberystwyth yn helpu i fynd i'r afael â'r angen hwn.

O ganlyniad, byddwn yn parhau i ddatblygu prosiect iechyd a gofal cymdeithasol integredig arloesol Cylch Caron mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a byddwn yn mynd ar drywydd

cyfleusterau gofal ychwanegol pellach yn Aberaeron ac mewn mannau eraill. Agorodd Maes y Môr ym mis Hydref 2021, cymuned gefnogol o 56 o fflatiau, sy'n galluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain gyda mynediad at ofal a chymorth 24 awr ar y safle.

Mae gan Geredigion hanes o gefnogi teuluoedd sy'n ffoi rhag rhyfel, newyn a digartrefedd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cefnogi 74 o ffoaduriaid o Syria yn llwyddiannus i'w croesawu i'r gymuned. Byddwn yn parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth helpu ffoaduriaid o Wcráin a'u hadsefydlu yn ein cymunedau.

Creu Cymunedau Iach

Mae Ceredigion yn sir ddwyieithog yn bennaf, ac mae ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig yn bwysig. Mae diogelu'r iaith yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor, lle mae'r Sir yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd y Gymraeg a'i bod yn iaith bob dydd sy'n cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion.

Rydym am annog pob un o'n dinasyddion, waeth beth fo'u gallu, i ddod yn gorfforol egniol fel y gallant elwa ar iechyd a llesiant cadarnhaol. Er mwyn cyflawni hyn rydym wedi rhoi cyfres o gamau gweithredu ar waith dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys darparu cyfleoedd gweithgarwch corfforol allgymorth, darparu Rhaglenni Ymyrraeth Iechyd i wella lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith oedolion hŷn a chefnogi sefydliadau cymunedol i ddarparu cyfleoedd i drigolion fod yn egniol.

Byddwn hefyd yn symud ymlaen i drawsnewid Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan yn 'Ganolfan Llesiant'. Bydd y Ganolfan yn gwella'r cynnig craidd o ddarpariaeth Hamdden gyda mannau ar gyfer cyfarfod, ymgynghori a thriniaeth i gyfrannu at wella lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol trigolion y Sir. Ein nod yw i Geredigion gyfan elwa o Ganolfannau Llesiant, ac o ganlyniad byddwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau i ddatblygu Canolfannau Llesiant yng Ngogledd a De'r Sir, yn ogystal â darpariaeth 'dros dro' mewn lleoliadau eraill.

BETH FYDD YN CREU CYMUNEDAU GOFALGAR AC IACH?

Creu Cymunedau Gofalgar

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Symud ymlaen gydag adeiladau cartref nyrsio newydd yn ardal Aberystwyth a darparu'n llawn ar gyfer anghenion gofal nyrsio ein poblogaeth	Porth Cynnal
Symud ymlaen gyda phrosiect arloesol gofal iechyd a chymdeithasol integredig Cylch Caron mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Porth Gofal
<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau Tindr Cylch Caron a Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r achos busnes 	Porth Gofal
Edrych am fwy o gyfleusterau gofal ychwanegol yn Aberaeron ac mewn mannau eraill	Porth Gofal
Cefnogi'r uchelgais o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru	Porth Gofal
Cryfhau ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr gwasanaethau drwy roi'r camau gweithredu a amlinellir yn Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru: 'Mwy na Geiriau' ar waith	Llesiant Gydol Oed
Byddwn yn gweithio gyda'n prifysgolion lleol gyda'r nod o weld ein sir yn dod yn un o'r canolfannau ar gyfer hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol ac ymwelwyr iechyd yng Nghymru yn ogystal â graddau nyrsio ym mhrifysgol Aberystwyth.	Llesiant Gydol Oed
Symud ymlaen gyda'r Model Darparu Gydol Oed, darparu 70% o wasanaethau o fewn gwasanaethau cyffredinol a chymorth cynnar, 20% mewn gwasanaethau asesu a thymor byr a 10% mewn gwasanaethau arbenigol	Llesiant Gydol Oed
Darparu'r Strategaeth Gydol Oed:	Llesiant Gydol Oed
<ul style="list-style-type: none"> Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio asedau ffisegol ar draws y model Gydol Oed a Llesiant 	Llesiant Gydol Oed

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Mae pobl o bob oed yn gwybod ble a sut i gael gfael ar wasanaethau cyffredinol â ffocws yn bersonol ac ar-lein i gynnal eu llesiant a'u hannibyniaeth eu hunain	Porth Cymorth Cynnar
Cydlynu cyfarfodydd grŵp teulu ar draws y Pyrth	Porth Gofal
Datblygu Strategaeth Gofal a alluogir gan dechnoleg	Porth Gofal
Gwneud y defnydd gorau o amgylcheddau gwyrdd a glas i wella gofal a chymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau	Porth Gofal
Datblygu ein strategaeth gofal a alluogir gan dechnoleg gan gynnwys gwelliannau digidol i ystadau'r awdurdodau lleol	Porth Gofal
Dull gweithredu gydol oed wedi'i wreiddio o ran brysbennu ac asesu	Porth Gofal
Adolygu gwasanaethau uniongyrchol a chynllunio a darparu modelau yn y dyfodol	Porth Gofal
Gweithredu'r model 'sylfaenol' ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymunedol	Porth Gofal
Byddwn yn parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth helpu ffoaduriaid a'u hailsefydlu yn ein cymunedau	Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Cefnogi cydlyniad cymunedol yng Ngheredigion	Pob gwasanaeth
Sicrhau bod trigolion Ceredigion yn deall ethos Tîm Ceredigion ac yn gwerthfawrogi ei gyfraniad/effaith i Gymunedau Gofalgar ac Iach Cefnogi cydlyniant cymunedol yng Ngheredigion	Porth Cymorth Cynnar
Blaenoriaethu a chefnogi anghenion gofalwyr	Porth Gofal

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Cwblhau adolygiad o gyfleoedd seibiant a diwrnod	Porth Gofal
Mae pobl o bob oed yn cael eu cefnogi i gael llais a theimlo bod rhywun yn gwrandao arnyn nhw	Porth Cymorth Cynnar
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu ymhellach seibiannau/anadliad Gofalwyr i bob oed Mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar Gyfranogiad ac Arwyddion Diogelwch / hawliau wedi'i wreiddio ar bob lefel 	Porth Gofal
Model seibiant Gydol Oed	Porth Gofal
Argaeledd ystod o fentrau cymdeithasol a micro-fentrau lleol	Porth Cymorth Cynnar
Ail-ymgysylltu â'r gwaith prosiect rhwng cenedlaethau	Porth Gofal
Cyflawni amrywiaeth o welliannau asedau	Porth Gofal
Cael gwasanaeth cefnogi nam ar y synhwyrâu	Porth Gofal
Sefydlu Fframwaith Comisiynu Gofal Cartref cadarn	Porth Gofal
Darparu gwasanaethau cymunedol cynaliadwy, llwyddiannus a chynhwysol, gan gynnwys partneriaid y trydydd sector:	Porth Gofal
<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu rôl y Cysylltwyr Cymunedol i gefnogi datblygiad cymunedau cydnerth. 	Porth Cymorth Cynnar
Defnyddio technoleg yng nghartrefi pobl i hybu annibyniaeth a chydnerthedd:	Porth Gofal
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu ein Strategaeth Gofal a alluogir gan dechnoleg gan gynnwys gwelliannau digidol i ystadau'r awdurdod lleol 	Porth Gofal
<i>(Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi pobl a'u teuluoedd i gael mynediad at gyngor a chymorth a ddarperir gan y trydydd sector, yn ogystal â nodi gwasanaethau a grwpiau priodol, yn eu cymunedau eu hunain, megis grwpiau cymdeithasol a allai helpu i gyfrannu at eu llesiant)</i>	

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Buddsoddi mewn technoleg glyfar i ddatblygu gwasanaethau ac i fod yn sail i arferion y dyfodol	Porth Cymorth Cynnar
Bod gan bobl o bob oed blatfform a chyfle i rannu syniadau ac atebion:	Porth Cymorth Cynnar
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu perthnasoedd â sefydliadau'r trydydd sector ymhellach, gan hybu cyfleoedd gwirfoddoli a llwybr 'hyrwyddwr cymunedol' 	Porth Cymorth Cynnar
Cefnogir a hyrwyddir mentrau cymunedol:	Porth Cymorth Cynnar
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu ymhellach y dull gweithredu seiliedig ar le o weithio ar y cyd. 	Porth Cymorth Cynnar
Cyfleoedd cymysg i gael gafael ar wasanaethau:	Porth Cymorth Cynnar
<ul style="list-style-type: none"> Gweithio ar y cyd i wneud y mwyaf o adnoddau a chyllid 	Porth Cymorth Cynnar
Datblygu dull gweithredu a yrrir gan ddata at adrodd am ofal cymdeithasol drwy gydol y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant	Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
<ul style="list-style-type: none"> Cynrychioli Ceredigion ar Gyfarfodydd Grŵp Gwybodaeth Busnes Gofal Cymdeithasol cenedlaethol 	Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Ymateb rhagweithiol a chadarn i argyfyngau sifil posibl:	Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
<ul style="list-style-type: none"> Brwydro yn erbyn lledaeniad clefydau trosglwyddadwy Paratoi ar gyfer, ac ymateb i, argyfyngau sifil 	Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Datblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-2028	Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Alinio a chysylltu'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r Cynllun Llesiant Lleol i leihau anghydraddoldebau trwy bresgripsiynu cymdeithasol	Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

BETH FYDD YN CREU CYMUNEDAU GOFALGAR AC IACH?

Creu Cymunedau Iach

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Datblygu set newydd o Amcanion Llesiant Corfforaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn seiliedig ar uchelgeisiau'r Cyngor ac wedi'u cysylltu'n ôl â chanfyddiadau dogfennau allweddol fel yr Aseiad o Lesiant Lleol	Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Cyhoeddi Strategaeth Gorfforaethol newydd erbyn Tachwedd 2022 ar gyfer y cyfnod etholiadol 2022-27	Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Ehangu'r gwasanaethau a'r gweithgareddau a gynigir yn draddodiadol yn ein Canolfannau Hamdden a'u trawsnewid yn Ganolfannau Llesiant	Porth Cymorth Cynnar
Parhau i hyrwyddo a hwyluso presgripsiynu cymdeithasol – megis garddio, cerdded a nofio	Porth Cymorth Cynnar
Cefnogi partneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddatblygu cyfleusterau iechyd meddwl, grwpiau cymorth a rhaglenni yn y gymuned	Porth Cymorth Cynnar
Cynorthwyo ein poblogaeth sy'n heneiddio i fod yn gorfforol ac yn gymdeithasol egniol, gan gefnogi eu hannibyniaeth	Porth Cymorth Cynnar
Mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau ar ôl yr ysgol, gyda'r nos ac ar y penwythnos, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer Chwarae hunangyfeiriedig a ddewisir yn rhydd a bod y gwasanaethau hyn wedi'u cofrestru i alluogi rhieni i gael gafael ar gymorth ariannol	Porth Cymorth Cynnar Ysgolion a Diwylliant
Mae gan bobl o bob oed fynediad i ystod o weithgareddau cymdeithasol yn eu cymunedau eu hunain:	Porth Cymorth Cynnar
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu digwyddiadau cyfranogi ymhellach i sicrhau bod gan gymunedau lais 	Porth Cymorth Cynnar

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngheredigion:	Pob gwasanaeth
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn sail i'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau i'r cyhoedd, fel bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith yn naturiol Gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i'n staff weithio yn Gymraeg a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg Ceredigion 2023-28, er mwyn hyrwyddo a chefnogi bywiogrwydd y Gymraeg o fewn y Sir, i helpu i gyflawni strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru. 	

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Gwella'r cyfle a'r gallu i bawb wneud ymarfer corff bob dydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparu cyfleusterau hamdden modern, hygyrch ac ysbrydoledig ar draws tair ardal Ceredigion (gogledd, canolbarth a'r de) Hybu pobl i wneud ymarfer corff fel bod modd iddynt gael budd o iechyd da a lles Cyflwyno gwell pecynnau aelodaeth ar gyfer defnyddio'r canolfannau hamdden sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor Darparu cyfleoedd am addysg gorfforol allgymorth y tu allan i ganol trefi'r sir Datblygu'r gwasanaeth symudol i hybu llesiant a diogelwch cymunedol Daprau Rhaglenni Ymyrraeth Iechyd i wella lefelau addysg gorfforol mewn oedolion hŷn Datblygu gweithgareddau Llesiant i unigolion gyda chlefydau iechyd cronig Darparu ymyrraeth â ffocws i wella llesiant corfforol ac emosiynol unigolion mewn lleoliadau cofrestredig, i adennill eu hannibyniaeth Cefnogi sefydliadau cymunedol i ddarparu cyfleoedd i breswylwyr i fod yn actif Cynyddu'n sylweddol y ddarpariaeth teithio llesol gan gynnwys cerdded a beicio ledled y Sir er mwyn gwella iechyd ein poblogaeth Nodi rôl Cyngor Chwaraeon Lleol Ceredigion at y dyfodol er mwyn iddo gyfrannu hyd yr eithaf i sefydliadau cymunedol Cyflawni Achrediad Aur Chwaraeon Anabled Cymru Trawsnewid Canolfan Hamdden Llambled yn Ganolfan Lles i wella lles corfforol, cymdeithasol ac emosiynol dinasyddion canol y sir Symud ymlaen gyda'r cynlluniau i ddatblygu Hybiau Lles a wasanaethir gan Ganolfan Lles yng Ngogledd a De'r sir Uwchraddio'r Caeau Chwarae Artiffisial sy'n eiddo i'r Cyngor, gan greu cyfleusterau 3G yng Nghanolbarth a De'r sir Datblygu cynllun gwella ar gyfer darparu cyfleusterau i gynyddu lefelau gweithgaredd yn y sir Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth a darparu adroddiad sy'n nodi'r seilwaith cyfleusterau sydd ei angen yng Ngogledd Ceredigion i gwrdd â dyheadau strategol y ddau sefydliad 	<p>Porth Cymorth Cynnar</p> <p>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</p>

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<ul style="list-style-type: none"> Adnoddau effeithiol ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a rhai â ffocws <p>Datblygu a chynnal y Strategaeth Toiledau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflawni'r Strategaeth Toiledau ar gyfer Ceredigion Ymgysylltu â'r cyhoedd i gael eu hadborth <p>Darparu Lleoedd Newid ychwanegol yng Ngheredigion</p> <p>Cynnal rhaglenni glanhau a sicrhau bod yr holl gyfleusterau'n lân, yn hygyrch ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda</p>	<p>Economi ac Adfywio</p> <p>Economi ac Adfywio</p> <p>Economi ac Adfywio</p>

DARPARU'R DECHRAU GORAU MEWN BYWYD A GALLUOGI POBL O BOB OED I DDYSGU

Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg nesaf Ceredigion yn strategaeth 10 mlynedd o hyd, 2022-2032, a bydd yn ceisio atgyfnerthu a chryfhau darpariaeth yr iaith Gymraeg a chyrraedd y targed sydd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Nod pwysig yw sicrhau bod disgyblion yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 6) pan maent yn symud o addysg gynradd i addysg uwchradd.

Ein blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r Amcan Llesiant Corfforaethol yw:

- Buddsoddi mewn ysgolion ar draws y Sir, gan gynnwys yr estyniad 3 llawr carbon sero net yn Ysgol Uwchradd Aberteifi
- Cyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2032
- Sicrhau bod disgyblion yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn digwydd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 6)
- Cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc
- Datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder Plant a Phobl Ifanc i wneud ymarfer corff
- Datblygu sgiliau arwain ein Plant a'n Pobl Ifanc ar y cyfle cyntaf
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd
- Cefnogi'r ddarpariaeth gofal plant a ariennir ar gyfer pob plentyn dwy oed
Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni Strategaeth Mamolaeth a Blynnyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau Theatr Felinfach
- Sicrhau bod pob dysgwr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion annibynnol
- Darparu cymorth i ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru yn llwyddiannus
- Datblygu Strategaeth Ddiwylliannol a Strategaeth Tegwch i gefnogi llesiant mewn ysgolion a chymunedau



Cynnydd a Wnaed

- Mae system addysg Ceredigion yn parhau i gael ei hystyried ymhlith y mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Cafodd y gefnogaeth a'r adnoddau a ddarparwyd i holl ysgolion Ceredigion yn ystod pandemig Covid-19 – yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo – eu canmol a'u gwerthfawrogi gan arolygwyr, staff yr ysgol, rhieni a disgyblion.
- Sefydloedd y Cyngor hybiau gofal plant yn ystod camau cynnar y pandemig i gefnogi'r plant hynny yr oedd angen gofal arnynt, a'u teuluoedd.
- Mewn ymateb i amseroedd aros hir i gael cymorth iechyd meddwl, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cefnogi elusen ieuencid leol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl hygyrch i bobl ifanc yn y sir.
- Wedi gweithio gyda'r 3ydd sector a busnesau preifat i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith i unigolion/grwpiau bregus.
- Cyflwyno gofal plant a ariennir ar gyfer plant tair oed ledled y sir.
- Llwyddo i sicrhau cyllid grant i ddatblygu darpariaeth gofal plant, megis meithrinfa Llwyn yr Eos yn Aberystwyth gwerth £900k, Cylch Meithrin Nawmor gwerth £700k yn Ysgol Cearnth a chyfleuster £600k Cylch Meithrin Tregaron.
- Agorwyd ysgol newydd ardal Drefach, Ysgol Dyffryn Cledlyn, yn 2017.
- Buddsoddwyd mewn a chyflawnwyd gwelliannau i ysgolion megis adnewyddu ac ehangu i greu ysgol 3-16 Henry Richard, yr estyniad a'r gwelliannau yn Ysgol Gynradd Aberteifi a'r estyniad 3 llawr newydd yn Ysgol Uwchradd Aberteifi.
- Mae datblygiadau ysgolion eisoes ar y gweill gan gynnwys y £100k o waith adeiladu yn ysgol uwchradd Penglais, darparu cyfleusterau newydd a gwell i'r ysgol, £160k o waith adeiladu yn Ysgol Henry Richard a £5.4m o waith ar Ysgol Uwchradd Aberteifi fel rhan o gynllun Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Ymgynghorwyr a chontractwyr proffesiynol yn cael eu penodi i ddarparu ysgol ardal newydd £11.5m yn Nyffryn Aeron, a'r estyniad newydd gwerth £5.4m yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.
- Penodi ymgynghorwyr i wneud gwaith cwmpasu gwerth tua £1m yn Amgueddfa Aberystwyth.
- Rhaglen dwy-flynedd o fuddsoddiadau gwerth £500,000 fel rhan o Raglen Arfor i gefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r Gymraeg.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru) a "Grŵp Gorchwyl a Gorffen Enwau Lleoedd Hanesyddol" Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Datblygu cynllun prentisiaeth yng nghartrefi gofal yr Awdurdod Lleol yng Ngheredigion.
- Cydweithio ar draws y Pyrh wrth gefnogi pobl ifanc ac atal argyfyngau.
- Cyflwyno Llwybr Llysgenhadon Ifanc (LII) cyflawn yn y sir gyda Llysgenhadon Ifanc Efydd ym mhob ysgol gynradd; LII Arian ym mhob ysgol uwchradd a Llwybr Chwarae Unedig ar gyfer pobl ifanc â nam deallusol i ddatblygu eu sgiliau arwain.
- Sicrhawyd cyllid i ddarparu hyfforddiant i staff y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau parhad wrth i blant symud ymlaen i addysg ffurfiol.
- Yn sgil newidiadau yn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cwricwlwm Newydd, darperir cefnogaeth ac arweiniad gan Swyddogion Datblygu ac Athrawon Ymgynghorol i'r sector gofal plant i wella a chynnal darpariaeth gofal plant.
- Datblygodd Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar gwrs Anghenion Dysgu Ychwanegol yn fewnol ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae 62% o warchodwyr plant wedi cwblhau'r hyfforddiant ADY ac mae 20% arall newydd ddechrau'r hyfforddiant.

Blaenoriaethau 2022/23

Cefndir

Mae system addysg Ceredigion yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yng Nghymru, ond mae enillion pobl y Sir yn is na'r cyfartaledd, ac mae'r canfyddiad bod diffyg cyfleoedd gyrfa a chyfleoedd cymdeithasol wedi arwain at allfudo gan ein hoedolion iau.

Mae Ceredigion hefyd yn economi incwm isel, gydag incwm aelwydydd ymhlith yr isaf yng Nghymru er bod ganddynt lefelau cymhwyster cymharol uchel yn y gweithlu. Mae tlodi mewn gwaith a thlodi plant yn sylweddol ac yn effeithio ar gyfran uwch o drigolion ein sir nag yn yr ardaloedd difreintiedig cydnabyddedig yn y Cymoedd a Dwyrain Cymru.

Bydd darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a helpu pobl o bob oed i ddysgu yn sicrhau y bydd y rhaglenni hyfforddiant priodol yn galluogi dysgwyr i ddiwallu anghenion busnesau Ceredigion yn awr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r set sgiliau angenrheidiol i ddysgwyr ôl-16 ac oedolion i'w galluogi i fod yn weithwyr hyblyg, dwyieithog sy'n gallu addasu i ofynion cyflogaeth yn y dyfodol.

Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd

Er mwyn darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol Am Ddim i ddisgyblion cynradd o fis Medi 2022 ymlaen. O dan y fenter, bydd holl blant y Dosbarth Derbyn yn derbyn prydau ysgol maethlon am ddim. Mae hon yn fenter bwysig wrth i'r argyfwng costau byw barhau.

Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o'r ansawdd uchaf ac mae wedi bod yn hynod effeithiol yng Ngheredigion ar gyfer teuluoedd yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar drwy Ddechrau'n Deg ar gyfer pob plentyn dwy oed, o fis Medi 2022.

Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi datblygiad iaith a lleferydd a sgiliau cyfathrebu plant; cymorth i rieni; a gwasanaeth ehangach o ran ymwelwyr iechyd.

Galluogi pobl o bob oed i ddysgu

Yn ystod y tymor nesaf byddwn yn adeiladu ar y buddsoddi a wnaed yn ein hysgolion yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno'r estyniad 3-llawr carbon sero net newydd yn ysgol gynradd Aberteifi, a fydd yn darparu prif fynedfa newydd a dwy ystafell ddosbarth newydd.

Mae ymchwil yn dangos y gall datblygu'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar annog teimlad o berthyn a chynnig llwybr i gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol newydd. O ganlyniad byddwn yn cyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a sicrhau bod disgyblion yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mlwyddyn 6. Cefnogir hyn gan ddatblygiad Strategaeth Ddiwylliannol a Strategaeth Tegwch i gefnogi lles yn ein cymunedau.

Rydym o blaid pobl ifanc a byddwn hefyd yn cefnogi Cyngor Ieuencid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc rannu eu barn, trafod prosiectau cyfredol a mynegi eu pryderon. Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant Corfforaethol.

BETH FYDD YN DARPARU'R DECHRAU GORAU MEWN BYWYD AC YN GALLUOGI POBL O BOB OED I DDYSGU?

Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Sicrhau seilwaith ysgolion pwrpasol a gwydn ar gyfer cynnig darpariaeth o ansawdd uchel ar sail y cyfalaf sydd ar gael am y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys:</p> <p>Cwblhau ysgol ardal newydd Dyffryn Aeron 3-11:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Agor ysgol ardal 3-11 newydd yn Nyffryn Aeron i gynnwys darpariaeth Gofal Plant a Chwarae <p>Cwblhau estyniad ar Ysgol Gymraeg Aberystwyth a'r Ganolfan Iaith ar gyfer gogledd y sir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau'r estyniad ar Ysgol Gymraeg Aberystwyth <p>Cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau buddsoddiad cyfalaf i ysgol newydd ym Mhenglais:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer cyllido a galluogi adeilad newydd ym Mhenglais <p>Parhau i adolygu lleoedd ysgol a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol i sicrhau bod y seilwaith yn wydn a chynaliadwy ac yn cyd-fynd â'r agenda carbon sero net:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i adolygu lleoedd ysgol yn flynyddol a'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, rhagamcanion, safonau, safonau adeiladau a gwydnwch ariannol i sicrhau seilwaith cynaliadwy <p>Symud ymlaen â'r estyniad 3 llawr sero net yn Ysgol Uwchradd Aberteifi</p> <p>Symud ymlaen â'r cynlluniau ar gyfer codi estyniad a gwneud gwelliannau yn Ysgol Gynradd Aberteifi</p>	<p>Ysgolion a Diwylliant</p> <p>Ysgolion a Diwylliant</p> <p>Ysgolion a Diwylliant</p> <p>Ysgolion a Diwylliant</p> <p>Ysgolion a Diwylliant</p>

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Gweithredu pob un o'r 7 canlyniad yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan gynnwys dysgu pob disgybl yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg tan 7 oed gan gyfrannu at y polisi Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer 2050:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio a rhoi Cynllun Gweithredu ar waith sy'n cynnwys ymgynghori'n statudol, o fewn y pum mlynedd cyntaf, ar newid categori iaith grŵp o ysgolion cynradd y sir i'r Gymraeg ar y lefel sylfaen a darparu Canolfan Iaith newydd yn Aberystwyth er mwyn cefnogi'r weledigaeth hon. <p>Sicrhau bod disgyblion yn hyderus wrth gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 6)</p> <p>Datblygu sgiliau arwain o fewn ein Plant a Phobl Ifanc ar y cyfle cyntaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd ein rhaglen Arweinwyr Ifanc mewn ysgolion yn cael ei hymestyn i Sefydliadau Cymunedol • Cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc o bob ysgol uwchradd yng Ngheredigion <p>Cefnogi'r Gwaith o ddatblygu cyfleusterau yn Theatr Felinfach</p> <p>Agor Sycharth a gweithio'n rhanbarthol ar y model cymorth therapi</p> <p>Cynyddu'r gwaith o recriwtio gofalfwyr maeth Cymraeg eu hiath</p>	<p>Ysgolion a Diwylliant</p> <p>Ysgolion a Diwylliant</p> <p>Porth Cymorth Cynnar</p> <p>Ysgolion a Diwylliant</p> <p>Porth Gofal</p> <p>Porth Gofal</p>



Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Ystod ehangach o opsiynau gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal:</p> <ul style="list-style-type: none">Gweithredu'r Asesiad Cymesur ar gyfer Plant	Porth Gofal
<p>Darparu cyfres o opsiynau ar gyfer seibiant a chyfleoedd dydd i Blant a Phobl Ifanc:</p> <ul style="list-style-type: none">Cynnal adolygiad cyflawn o gyfleoedd seibiant a dydd	Porth Gofal
<p>Cefnogi'r Cytundeb Cydweithredu a gytunwyd rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru i ddarparu gofal plant i blant o 2 flwydd oed a phrydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd er mwyn cefnogi teuluoedd:</p> <ul style="list-style-type: none">Cefnogi'r gofal plant a ariennir ar gyfer pob plentyn dwy oedRhoi'r broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd ar waith fesul cam, gan ddechrau ym mis Medi 2022	Ysgolion a Diwylliant Porth Cymorth Cynnar
<p>Pob plentyn I gael y dechrau gorau mewn bywyd ac i gael mynediad at gefnogaeth pan fydd angen:</p> <ul style="list-style-type: none">Darparu rhaglenni i rieni sy'n seiliedig ar Anghenion a Thystiolaeth er mwyn hyrwyddo arferion rhianta cadarnhaol. Bydd hyn yn cefnogi twf a datblygiad cyfannol plant iach a hapusDefnyddio canfyddiadau Arolygon ac adborth ar draws Porth Cymorth Cynnar i lunio ein darpariaeth at y dyfodol	Porth Cymorth Cynnar

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Rhoi'r Dechrau Gorau mewn Bywyd i'n Plant a Phobl Ifanc drwy ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth, a'u hyder i fod yn gorfforol egniol, a thrwy'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Cefnogi'r Gwaith o ehangu Dechrau'n Deg a gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer pob plentyn dwy oedCydnabod hawl sylfaenol plant i Chwarae a'i fanteision o ran iechyd a llesRhoi cyfle i bob plentyn yn y sir ddysgu nofioRhoi cyfle i bob plentyn yn y sir ddysgu sgiliau symud sylfaenol.	Porth Cymorth Cynnar Ysgolion a Diwylliant
<p>Cefnogi'r gwaith o fonitro a chyflawni Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar drwy ddatblygu Dangosfwrdd rhanbarthol Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar i'w ddefnyddio gan bartneriaid ledled Ceredigion i fonitro cynnydd ar sail Fframwaith cenedlaethol Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar.</p>	Ysgolion a Diwylliant
<p>Cefnogi disgyblion a theuluoedd i gael mynediad i glybiau ieuencid a grwpiau cymdeithasol lleol a gweithgareddau wedi'u trefnu.</p>	Porth Cymorth Cynnar

BETH FYDD YN DARPARU'R DECHRAU GORAU MEWN BYWYD AC YN GALLUOGI POBL O BOB OED I DDYSGU?

Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Cwblhau'r adolygiad o addysg Chweched Dosbarth a rhoi'r argymhellion cymeradwy ar waith i sicrhau bod y seilwaith yn cefnogi anghenion y dysgwyr</p>	Ysgolion a Diwylliant
<p>Datblygu Strategaeth Ddiwylliannol i gefnogi llesiant ysgolion a chymunedau drwy sicrhau mynediad teg i gelfyddydau a diwylliant bywiog, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i sicrhau buddsoddiad cyfalaf i roi theatr newydd a Chanolfan i'r Celfyddydau yn nyffryn Aeron yn lle Theatr Felinfach, fel sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet 	Ysgolion a Diwylliant
<p>Darparu Storfa a Chyfleuster newydd i ymgysylltu'r Cyhoedd â chasgliadau Amgueddfa Ceredigion:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu Strategaeth Ddiwylliannol gynhwysfawr gan gynnwys seilwaith Theatr Felinfach a'r Amgueddfa 	Ysgolion a Diwylliant
<p>Datblygu dealltwriaeth glir o natur amddifadedd gwledig, a datblygu strategaeth a chynllun gweithredu i leihau effaith amddifadedd ar ddisgyblion, sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol o Fynd i'r afael â Chaledi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Creu a gweithredu Cynllun Gweithredu Amddifadedd a Thegwch Gwledig i gefnogi ysgolion, lleoliadau nas cynhelir a darparwyr gofal plant a chwarae i leihau effaith tldi ar bob plentyn 	Ysgolion a Diwylliant
<p>Sicrhau bod pob dysgwr yn profi ystod eang o gyfleoedd dysgu i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth sydd yn adlewyrchu'r pedwar pwrpas craidd yn y Cwricwlwm i Gymru drwy</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau cefnogaeth briodol i ysgolion, lleoliadau nas cynhelir a darparwyr gofal plant a chwarae, er mwyn rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn llwyddiannus 	Ysgolion a Diwylliant

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Sicrhau bod yr holl ddysgwyr sydd wedi'u nodi ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cefnogi yn briodol er mwyn iddynt fod yn unigolion annibynnol a chyflawn</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau cefnogaeth briodol i ysgolion, lleoliadau nas cynhelir a darparwyr gofal plant a chwarae i weithredu'n llwyddiannus y Gwaith o drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol 	Ysgolion a Diwylliant
<p>Darparu nifer o gyrsiau targed sydd yn gysylltiedig â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac ymchwil i'r farchnad lafur, er mwyn gwella'r cyfleoedd i uwchsgilio a chael cyflogaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Cryfhau'r cyfleoedd dysgu anffurfiol a ffurfiol i ddysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd ac i'r rhai sy'n amharod i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant oherwydd eu hanghenion o ran llesiant emosiynol a meddyliol Bydd Partneriaeth Ddysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei sefydlu gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys i roi ffocws ar gyfer sgiliau yn y Canolbarth, ac i ysgogi twf economaidd drwy sicrhau buddsoddiad yn y sgiliau cywir 	Porth Cymorth Cynnar
<p>Sicrhau bod gan bobl o bob oed lwybr dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Ehangu cyfleoedd dysgu i oedolion sy'n seiliedig yn y gymuned, sydd yn cyrraedd anghenion pob dysgwr 	Porth Cymorth Cynnar
<p>Mae plant a phobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o gael eu gwahardd ac o ymddieithrio yn cael cefnogaeth i ddefnyddio rhaglenni a gweithgareddau dysgu anffurfiol, strwythuredig, i gefnogi eu cyrhaeddiad</p>	Porth Cymorth Cynnar



Byddwn yn:	Gwasanaeth
Caiff llwyddiannau eu dathlu a'u harddangos	Pob gwasanaeth

CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY A GWYRDD SYDD WEDI'U CYSYLLTU'N DDA Â'I GILYDD



Mae Cyngor Sir Ceredigion yn awyddus i greu mwy o gyfleoedd cerdded a beicio yn y Sir, er mwyn gwella iechyd ein poblogaeth a'i gwneud hi'n haws i bobl adael eu ceir gartref, gan leihau allyriadau carbon. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gwthio i gynnwys ein trefi bach a'n hardaloedd gwledig o fewn meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu llwybrau teithio llesol.

Ein blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r Amcan Llesiant Corfforaethol yw:

- Blaenoriaethu lleihau allyriadau carbon a dilyn ein nod o fod yn Garbon Sero Net erbyn 2030
- Adeiladu ar berfformiad gwyb Ceredigion ym maes ailgylchu
- Symud tuag at fflyd o gerbydau ag allyriadau isel iawn yn y Cyngor
- Gweithio gyda Chymdeithasau Tai i gynyddu ein stoc tai cymdeithasol
- Darbwyllo pobl i beidio â pherchen ar ail gartrefi yn y sir
- Galluogi mwy o bobl ifanc i adeiladu cartref am oes
- Annog cadw enwau lleoedd Cymraeg
- Rydym wedi cydnabod difrifoldeb y mater sy'n gysylltiedig â lefelau ffosffadau ar hyd Dyffryn Teifi yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Gwneir pob ymdrech drwy'r Bwrdd Rheoli Maetholion i ddod o hyd i atebion cynnar i'r broblem
- Chwilio am atebion i'r llyfogydd a geir yn nyffryn Teifi
- Mynd ar drywydd cyllid ar gyfer amddiffynfeydd i'r arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth a datblygu cynigion ar gyfer cam nesaf yr amddiffynfa arfordirol yn y Borth ac ar gyfer y lan yn Llangrannog
- Atal a dad-wneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth gan gynnwys yn ein hamgylchedd morol
- Cefnogi rhagor o ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio
- Dadlau'n gryf o blaid cyswllt rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin



Cynnydd a Wnaed

- Blaenoriaethu newid hinsawdd a lleihau carbon. Ers 2007 mae'r Cyngor wedi cynnal cyfres o dri Chynllun Rheoli Carbon 5 mlynedd. Ers cychwyn y cynllun cyntaf, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi lleihau ei allyriadau carbon gan 61%.
- Yn 2020, bu i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac ymrwymodd y Cyngor i gyflawni Carbon Sero Net erbyn 2030.
- Datblygu'r adeilad carbon sero net cyntaf ar stad y Cyngor gyda'r bloc meithrin newydd yn Ysgol Llwyn yr Eos ym Mhenparcau.
- Gosod 70kw o gelloedd ffotofoltaig ar do Ysgol Bro Teifi, gan gynhyrchu 160kw yr awr o drydan glân.
- Yn ogystal rydym wedi gosod 22kw o gelloedd ffotofoltaig ar Ysgol Bro Pedr yn Llanbedr Pont Steffan, 10kw ar Ysgol Henry Richard yn Nhregaron a 10kw arall ar Ysgol Comins Coch.
- Gosod cannoedd o fylbiau LED yn ein goleuadau stryd o amgylch y sir, gan arwain at arbed dros £2 filiwn.
- Wedi cychwyn adolygiad i symud tuag at Gerbydau Allyriadau Isel lawn yn ein fflyd gorfforaethol.
- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae Ceredigion wedi cyflawni un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru a'r DU, sef 70% ar hyn o bryd. Mae hyn wedi osgoi 9,000 tonnelli o allyriadau carbon ac wedi arbed tua £2 filiwn o gymharu â gwaredu traddodiadol. Rydym yn casglu digon o wastraff bywyd mewn blwyddyn i bweru 300 o gartrefi.
- Cyflwyno casgliadau ailgylchu gwyrdd o ymyl y ffordd.
- Mae prosiect gwobrwyol y Cyngor - Caron Cynnes - wedi sicrhau bod cartrefi llawer o drigolion lleol yn ynni- effeithlon ac yn gynnes. Mae'r rhaglen wedi darparu gwres canolog ac wedi inswleiddio 137 o gartrefi nad oedd yn ynni- effeithlon yn flaenorol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle nad yw'r rhwydwaith nwy yn cyrraedd.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mentrau Effeithlonrwydd Ynni sy'n darparu mesurau effeithlonrwydd yng nghartrefi pobl a chynghor i bobl.
- Cyflawni gwelliannau i'r seilwaith trafndiaeth gyhoeddus ar hyd coridor TrawsCymru drwy Gyllid Trafndiaeth Leol.
- Mae Swyddog Datblygu Trefi wedi'i gyflogi i ymgysylltu â chynrychiolwyr trefi i helpu i hwyluso a chefnogi syniadau i adfywio trefi gwledig Ceredigion. Darperir hyn gyda chymorth cyllid Leader drwy raglen Cynnal y Cardi.
- £379k o gyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth o brosiectau i ddod ag asedau canol trefi i ddefnydd economaidd ac i wella'r seilwaith gwyrdd yng nghanol trefi.
- Parhau i fuddsoddi mewn cysylltedd digidol ar draws y Sir, a gwella'r cysylltedd hwnnw. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Cysylltiad Ffeibr i Adeiladau (FTTP) wedi cynyddu o 20% i 28.3%, ac ar gyfer Band Eang Cyflym lawn (>30Mbps neu fwy) o 80.6% i 86.3%.
- Cefnogi cyflenwyr lleol trwy gydol pandemig COVID-19 yn ystod y cyfnod o leihau neu ohirio gwasanaethau gwastraff a chludiant.
- Wedi cyflawni nifer o welliannau Teithio Llesol, gan gynnwys gwaith adnewyddu mawr ar Bont -yr-Odyn, Trefechan ac adeiladu llwybr cyd-ddefnydd rhwng cymunedau Penrhyn-coch a Bow Street, gan gysylltu â'r orsaf reilffordd newydd.
- Galluogi dros £200k o Gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gyfer prosiectau Ceredigion.
- Wedi cynnal Cydlynnydd Partneriaeth Natur Leol Ceredigion (LNP) fel rhan o brosiect tair blynedd Partneriaeth Natur Leol Cymru Gyfan a nawr blwyddyn gyntaf prosiect Partneriaeth Natur Leol Cymru Gyfan / LPfn.
- Dyrannu £25k o gyllid ar gyfer gwelliannau i randiroedd yn 2021-2022.
- Wedi darparu diogelwch gwell ar y ffyrdd wrth nifer o ysgolion drwy gyflwyno parthau 20 mwa newydd gyda mesurau arafu traffig, gan annog disgyblion i deithio'n llesol gyda llwybrau gwell a gefnogir gan gysgodfannau newydd i feiciau a sgwteri.

Blaenoriaethau 2022/23

Cefndir

Mae gan y Cyngor rôl arweiniol i'w chwarae wrth warchod a gwella adnoddau naturiol y Sir gan ymdrechu i warchod ansawdd aer, tir a dŵr. Ym mis Mawrth 2020, bu i'r Cyngor ddatgan argyfwng hinsawdd byd-eang. Mae'r penderfyniad yn amlygu'r angen i gymryd camau llym pellach i leihau ein hallyriadau carbon.

Mae ganddo hefyd rôl allweddol o ran hyrwyddo, sicrhau a gwella bioamrywiaeth. Mae cyfrifoldeb stiwardiaeth amgylcheddol y Cyngor hefyd yn ymestyn i'r amgylchedd adeiledig ac mae rheoli datblygiadau a defnydd tir mewn modd cadarnhaol yn y dyfodol yn hanfodol i gyflawni'r amcanion hyn.

Mae heriau allweddol o ran cyflawni hyn megis lefelau ffosffadau yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi sy'n atal adeiladu yn Nyffryn Teifi.

Mae fforddiadwyedd tai yn parhau i fod yn her fawr i lawer yn y sir. Mae'r galw am dai yng Ngheredigion wedi gweld prisiau tai cyfartalog yn cyrraedd y lefelau uchaf erioed, gan ei gwneud yn gynyddol anodd i bobl leol aros yn eu cymuned leol ac i brynwyr tro cyntaf fynd ar yr 'ysgol dai'.

Creu Cymunedau Cynaliadwy

Byddwn yn parhau i weithio gyda chymdeithasau tai lleol i gynyddu ein stoc o dai cymdeithasol i ddiwallu anghenion pobl leol a'n poblogaeth sy'n heneiddio, yn enwedig y 1,700 o bobl sydd ar y rhestr aros am dai. Byddwn hefyd yn cymryd camau i ddarbwylo pobl i beidio â phrynu ail gartrefi yn y Sir a defnyddio'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol i alluogi mwy o bobl ifanc i adeiladu cartref gydol oes er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig.

Creu Cymunedau Gwyrddach

Yn ystod y tymor nesaf byddwn yn parhau i flaenoriaethu lleihau allyriadau carbon er mwyn mynd ar drywydd ein nod o ddod yn Gyngor carbon sero net erbyn 2030. Mae rhai o'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd yn cynnwys

bod pob ysgol newydd a ddatblygir yng Ngheredigion yn rhai carbon sero net, ac edrych mewn i drawsnewid cerbydau ein fflyd gorfforaethol i gerbydau Allyriadau Isel lawn er mwyn sicrhau gostyngiad o 3% mewn allyriadau carbon o flwyddyn i flwyddyn. Bydd cynllun gweithredu pum mlynedd bresennol y Cyngor yn parhau i gael ei gyflawni wrth i ni anelu at warchod ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â phrosiectau pellach i gynyddu cynhyrchiant ynni gwyrdd ac adnewyddadwy ar dir y Cyngor. Er enghraifft, cwblhau'r rhaglen o osod bylbiau arbed ynni LED mewn goleuadau stryd, rhesymoli stoc adeiladau'r Cyngor, a gosod mwy o ganopïau solar. Bydd ein polisi gweithio hybrid newydd yn lleihau'n barhaol faint o deithio y mae'n rhaid i Gynghorwyr a swyddogion ei wneud, gan leihau traffig ac allyriadau.

Creu Cymunedau sydd wedi'u Cysylltu'n Dda

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi dangos mor bwysig yw bod yn gysylltiedig â'n trigolion a'n busnesau. O ganlyniad byddwn yn gryf o blaid mwy o ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio, parhau i gynnal a chadw ac atgyweirio ein rhwydwaith priffyrdd a gwthio am gyswllt rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin.

Mae cynnydd da wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf o ran cryfhau cysylltedd digidol y Sir, a byddwn yn parhau i wthio am gysylltedd gwell ar draws y sir, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o gyflwyno mastiau Band Eang 4G dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys yn ein hardaloedd mwyaf gwledig, i leihau anghydraddoldeb mewn gwasanaethau. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau y gall trigolion a busnesau Ceredigion ddod yn aelodau llawn o Gymru sy'n rhyng-gysylltiedig.

BETH FYDD YN CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY A GWYRDD SYDD WEDI’U CYSYLLTU’N DDA Â’I GILYDD?

Creu Cymunedau Cynaliadwy

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Gweithio gyda Chymdeithasau Tai Lleol i gynyddu’r stoc tai cymdeithasol i gwrdd ag anghenion pobl leol a phoblogaeth sy’n heneiddio	Porth Gofal
Cydweithio gyda’r Canolfannau Lles a’r Trydydd Sector i ddarparu ystod eang o gyngor Tai / gwasanaethau Tai yn rhagweithiol, er mwyn hybu annibyniaeth a gwytnwch personol a chymunedol	Porth Gofal
Darparu ystod eang o Opsiynau Tai Fforddiadwy o fentrau ar gyfer rhentu neu Berchen ar dŷ	Porth Gofal
Darbwyllio pobl i beidio â phrynu ail gartref yn y sir	Pob gwasanaeth
Cefnogi’r gwaith o osod trothwy uchaf ar nifer yr ail dai a thai gwyliau mewn ardal benodol	Porth Gofal Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Monitro ansawdd aer yng Ngheredigion a pharhau i gymharu â safonau ac amcanion cenedlaethol	Economi ac Adfywio Porth Gofal Economi ac Adfywio
Defnyddio adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol i alluogi mwy o bobl ifanc i adeiladu cartref am oes	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Cefnogi Siarter Cyfiawnder Cartrefi Cymru	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Galluogi mentrau a mesurau lliniaru i helpu i ddatrys mater ecolegol y ffosffadau a’r maetholion yn Nyffryn Teifi a dalgylchoedd arall	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Gweithio gyda’r holl asiantaethau perthnasol i ddod o hyd i atebion i lifogydd yn Llanybydder, Llandysul ac aneddiadau eraill ar hyd Dyffryn Teifi, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar ymyrraeth yn eu rôl fel rheolwyr perygl llifogydd ar gyfer prif afonydd	Economi ac Adfywio
Annog cadw enwau tai a lleoedd Cymraeg	Gwasanaethau Democrataidd Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Mynd ar drywydd cyllid a chyflawni’r amddiffynfeydd arfordirol yn Aberaeron, Aberystwyth, y Borth a Llangrannog, a’r gwaith o reoli perygl llifogydd yn Llandre, Aberaeron, y Borth, Talybont a Chapel Bangor (yn amodol ar sicrhau bod cyllid priodol ar gael gan Lywodraeth Cymru)	Gwasanaethau Democrataidd Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Cynorthwyo cymunedau lleol sy’n dymuno darparu Mannau Tyfu ar gyfer trigolion lleol	Economi ac Adfywio
Cynorthwyo cymunedau lleol sy’n dymuno sefydlu neu wella Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gyfer trigolion lleol	Economi ac Adfywio
Cynnal safle Ceredigion fel un o’r ailgylchwyr mwyaf llwyddiannus yng Nghymru a pharhau i adeiladu ar y llwyddiant hwnnw drwy: <ul style="list-style-type: none"> Gynnal adolygiad o swyddogaethau gwastraff i sicrhau bod gwasanaethau yn addas ar gyfer y dyfodol, a nodi’r cymorth ariannol priodol 	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Rhoi ar waith y weledigaeth o Gymunedau Dysgu Cynaliadwy parthed yr agenda sero net	Ysgolion a Diwylliant
Gwella a diogelu bioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol – atal a dad-wneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy: <ul style="list-style-type: none"> Ddatgan Argyfwng Natur Datblygu a gweithredu Cynlluniau Corfforaethol I Reoli Bioamrywiaeth a Chynlluniau Rheoli Maetholion Cymryd rhan amlwg mewn rhaglenni fel bod cyfraniad Ceredigion at golli bioamrywiaeth yn llai, a delio â’i effeithiau gan gynnwys yn ein hamgylchedd morol Sicrhau bod y rhaglen asedau a’r gwaith o reoli’r holl ardaloedd amwynder ac ymylon y ffyrdd yn cyfrannu at y Ddyletswydd yn Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a’r nod o Gymru sy’n Gydnerth yn Ecolegol 	Pob gwasanaeth



Creu Cymunedau Gwyrdd

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Dilyn y nod o fod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030 drwy</p> <ul style="list-style-type: none"> • Flaenoriaethu gostwng allyriadau carbon • Cyflwyno cynlluniau sydd yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Sero Net y Cyngor • Cyflawni Cynllun Rheoli Carbon 5-mllynedd bresennol y Cyngor • Datblygu seilwaith depo a chyllid priodol • Parhau i ddatblygu Cynllun Gweithredu Ynni ar gyfer y rhanbarth, a hefyd Cynlluniau Ynni Lleol. Mae Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru ar waith • Trawsnewid fflyd gerbydau'r Cyngor i fod yn rhai ag allyriadau isel iawn (ULEV) • Defnyddio cyllid Ysgolion y 21ain Ganrif i adnewyddu Ysgol Uwchradd Aberteifi i gynnwys mwy o gelloedd ffotofoltäig ar y to (trosi golau i mewn i drydan yw ffotofolteg) • Gosod canopiâu solar ym maes parcio Canolfan Rheidol yn Aberystwyth • Cynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar dir y Cyngor • Nodi llinell sylfaen ar gyfer lleihau'n barhaol deithiau gan Gynghorwyr a Swyddogion • Sicrhau gostyngiad carbon o 3% flwyddyn ar ôl blwyddyn drwy nodi adnoddau i fwrw ymlaen i ddatgarboneiddio cerbydau'r fflyd gorfforaethol i dipyn i dipyn 	<p>Economi ac Adfywio</p> <p>Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol</p> <p>Ysgolion a Diwylliant</p>
<p>Parhau i gefnogi cyfleoedd strategol gyda'n partneriaid yn y Canolbarth, gan gynnwys cwmpasu a datblygu cynigion a nodir yn Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru gan gynnwys hydrogen gwyrdd a ffynonellau eraill</p>	<p>Economi ac Adfywio</p> <p>Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol</p>

Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Rhannu dyheadau Net Sero rhwng aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, cyfnewid enghreifftiau o arfer da a chefnogi camau gweithredu unigol a chyfunol i hyrwyddo sir garbon niwtral:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal Astudiaeth Dichonoldeb ac adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ynghylch prosiect y Rhwydwaith Gwresogi Ardal sydd wedi'i leoli ar Gampws y Brifysgol, Penglais, Aberystwyth <p>Mae pob ysgol a lleoliad gofal plant newydd yn cael eu hadeiladu a'u cynnal er mwyn bod yn garbon sero net</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn parhau i gyflwyno cynlluniau mawr o ran Ysgolion a fydd yn rhoi sgôr effeithlonrwydd ynni o EPC +10% • Bydd ysgolion newydd yn cael eu cynnal i fod yn garbon sero net lle bynnag y bo modd • Lleihau ôl troed carbon deunyddiau a defnyddio dulliau adeiladu a chynnal a chadw arloesol lle bynnag y bo modd • Bydd ysgolion newydd a phrosiectau mawr yn cynnwys carbon a fydd 20% yn is na'r llinell sylfaen. <p>Pob ysgol newydd yn cael ei hadeiladu i gyflawni Rhagoriaeth BREEAM</p> <p><i>(Cynllun asesu ac ardystio yw BREEAM a ddyluniwyd i helpu rheolwyr adeiladau i wella perfformiad amgylcheddol adeiladau annomestig presennol. Ystyr BREEAM yw Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu)</i></p> <p>Rhesymoli stoc adeiladau'r Cyngor er mwyn arbed rhagor o garbon ac adnoddau</p> <p>Datblygu un system gwresogi ardal sy'n defnyddio ynni gwyrdd ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus ar Riw Penglais - Prosiect Gwresogi Ardal Penglais</p>	<p>Economi ac Adfywio</p> <p>Economi ac Adfywio</p> <p>Economi ac Adfywio</p> <p>Economi ac Adfywio</p>

BETH FYDD YN CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY A GWYRDD SYDD WEDI’U CYSYLLTU’N DDA Â’I GILYDD?

Creu Cymunedau sydd wedi’u cysylltu’n dda â’i gilydd

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Cefnogi polisiâu cynllunio o blaid ygni adnewyddadwy a thai ynni isel	Economi ac Adfywio
Rhaglen gyflawn o osod bylbiau LED arbed ynni mewn goleuadau stryd ac arwyddion ffordd wedi’u goleuo	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Gwella’r seilwaith gwefru Cerbydau Trydan ar draws Ceredigion, er mwyn annog datgarboneiddio trafndiaeth a chynyddu’r nifer sy’n defnyddio Cerbydau Allyriadau Isel lawn drwy gyflawni’r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Gosod pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio y mae’r Cyngor yn eu perchen a’u rheoli Darparu rhwydwaith gwefru Cerbydau Trydan cynhwysfawr trwy ddarpariaeth o seilwaith preifat a chyllid cyhoeddus 	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol Economi ac Adfywio
Nodi a mynd i’r afael ag effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau a’n seilwaith, a cheisio am gyllid priodol er mwyn lliniaru’r broblem	Pob gwasanaeth
Defnyddio tir yng Ngheredigion ar gyfer gwrthbwyso carbon, atal a gwrthdroi’r dirywiad mewn natur ac ar gyfer rheoli maetholion	Pob gwasanaeth
Trwy waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, nodi bylchau mewn sgiliau a darparu hyfforddiant i alluogi busnesau a thrigolion Ceredigion i gyfrannu at wneud cartrefi, gweithleoedd a’r amgylchedd ‘yn wyrddach’	Pob gwasanaeth
Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod rhagnodi cymdeithasol, gwyrdd a glas yn cael ei ddefnyddio’n rhagweithiol ac yn adweithiol i fynd i’r afael â chyflyrau iechyd	Llesiant Gydol Oed

Byddwn yn:	Gwasanaeth
Cefnogi darparu rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig trwy’r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi a chynnal y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus, a chanfod cyllid / gwneud gwelliannau lle mae hynny’n bosib 	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Parhau i wella cyflwr y rhwydwaith priffyrdd yn unol â Chynllun Rheoli Asedau Priffyrdd: <ul style="list-style-type: none"> Ceisio cyllid ychwanegol ar gyfer rhaglenni adnewyddu a gwella priffyrdd Parhau i archwilio, cynnal a chadw ac atgyweirio'r rhwydwaith priffyrdd yn amodol ar y cyllid sydd ar gael 	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Cynyddu’r ddarpariaeth teithio llesol yn sylweddol gan gynnwys cerdded a beicio ledled y Sir er mwyn gwella iechyd ein poblogaeth a chyflawni hyn drwy’r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau mwy o arian ar gyfer darparu ystod eang o welliannau teithio llesol Ymgychu dros lwybrau teithio llesol ar hyd ein cefnffyrdd i gyd Brwydro i gael ein trefi bach a’n hardaloedd gwledig wedi’u cynnwys o fewn meini prawf Llywodraeth Cymru i dderbyn cyllid ar gyfer llwybrau teithio llesol. Ei gwneud hi’n haws i bobl adael eu ceir gartref, a thrwy hynny leihau allyriadau carbon drwy frwydro i gael ein trefi bach a’n hardaloedd gwledig wedi’u cynnwys o fewn meini prawf Llywodraeth Cymru i dderbyn cyllid ar gyfer llwybrau teithio llesol. 	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol Economi ac Adfywio
Cefnogi gwasanaeth ar-alw Bwcabus yn ein cymunedau gwledig yn amodol ar gyfleoedd ariannu parhaus a chynyddol gan Lywodraeth Cymru	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol



Byddwn yn:	Gwasanaeth
<p>Dadlau'n gryf y dylai Llywodraeth Cymru roi cyfle i lwybrau trafndiaeth gyhoeddus gael eu masnach-freinio yn cynnwys cwmnïau bysiau lleol bach</p>	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
<p>Datblygu rôl Cysylltwyr Cymunedol sy'n cefnogi trigolion o bob oed yng Ngheredigion drwy eu helpu i wneud cysylltiadau i gael mynediad at gyfleoedd a all eu cynorthwyo yn eu hardal gan felly gynnal a gwella eu lles:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gwella rôl Cysylltwyr Cymunedol i gefnogi datblygiad cymunedau cydnerth <p><i>(Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi pobl a'u teuluoedd i gael mynediad at gyngor a chymorth a ddarperir gan y trydydd sector, yn ogystal â nodi gwasanaethau a grwpiau priodol, yn eu cymunedau eu hunain, megis grwpiau cymdeithasol a allai helpu i gyfrannu at eu llesiant)</i></p>	Porth Gofal

YMATEB I COVID-19 A DATBLYGU FFYRDD NEWYDD O WEITHIO

Mae Ceredigion, fel gweddill Cymru, yn dal i ddod dros y pandemig iechyd yn sgil COVID-19 a gyrhaeddodd Cymru ym mis Mawrth 2020. Yn anochel cafodd hyn effaith ar y rhan fwyaf o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu gan dnynu sylw penodol at rai ohonynt.

Er y sialensiau wrth ymateb i'r pandemig, mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi creu cysylltiad agosach rhwng y Cyngor a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu nag erioed o'r blaen. Mae'r Cynghorwyr, y staff, grwpiau cymunedol a phartneriaid wedi tynnu at ei gilydd i gefnogi cymunedau Ceredigion a'r rhai mwyaf bregus yn y gymdeithas.

Rydym yn falch ac yn ddiolchgar i'r ymateb oddi wrth ein gwasanaethau rheng flaen, staff y Cyngor ac i'r nifer o wirfoddolwyr sydd wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor i sicrhau bod preswylwyr Ceredigion wedi derbyn y gefnogaeth yr oeddynt eu hangen. Mae'r cyfnod adfer bellach wedi hen ddechrau, ac mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i gefnogi busnesau lleol, i gefnogi llwyddiant economaidd ac i gefnogi'r rhai mwyaf bregus, wrth sicrhau bod mentrau datgarboneiddio a newid hinsawdd yn gwarchod amgylchedd prydfferth y Sir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Tra'r oedd y ffocws ar yr ymateb brys i'r pandemig, crëodd COVID-19 gyfleoedd i ddysgu, i drawsnewid gwasanaethau ac i sicrhau newid a gwelliannau cynaliadwy.

Mewn gwirionedd, mae wedi ein galluogi ni i ail feddwl am y ffordd yr ydym yn gweithio ac i ail-drefnu mewn ffordd sy'n fuddiol i'n cwsmeriaid, i'r gweithlu ac sy'n effeithio'n llai ar ein hamgylchedd.

Mae gan y Cyngor hanes o fod yn arloesol ac ymatebodd yn gyflym ac yn bositif i'r pandemig.

Yr oedd eisoes yn symud tuag at ffyrdd craff a hwylus o weithio, gan gynnwys buddsoddi mewn offer a meddalwedd digidol, a gwella'r trefniadau gweithio hyblyg a oedd eisoes ar waith.

Ers hynny, yr ydym wedi bod yn adeiladu ar ein profiadau yn sgil y pandemig er mwyn newid y ffordd yr ydym yn gweithio. Yr ydym yn defnyddio model 'gweithio hybrid' newydd, sy'n darparu ffyrdd mwy hwylus a symudol o weithio i staff, sy'n gwella profiadau'r cwsmeriaid ac sydd hefyd yn gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn ariannol.

Yr ydym wedi dysgu bod gweithio rhithiol / o bell wedi arwain at gynydd mewn cynhyrchiant, gwelliant mewn cydweithio ac wedi darparu amgylchedd gweithio mwy hyblyg sy'n helpu cynnal iechyd a llesiant ein gweithlu. Mae cynaliadwyedd ein sefydliad hefyd yn gwella yn sgil lleihad mewn costau a gwariant cyffredinol fesul gweithiwr. Yn dechnolegol, mae'n darparu'r cyfle i ni ddatblygu gwasanaethau Technoleg Cyfathrebu Gwybodaeth er mwyn gwella cysylltiadau digidol â chwsmeriaid a sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau cyd-gysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, sy'n cael eu rheoli'n dda, sy'n hawdd eu cyrraedd ac sy'n hawdd eu defnyddio.

Mae'r dull hwn hefyd yn gwneud cyfraniad positif at gynaliadwyedd ein hamgylchedd naturiol trwy leihau, yn barhaol, y teithio i'r Cynghorwyr a Swyddogion. Effaith hyn yw lleihau tagfeydd traffig ar ein ffyrdd a llai o allyriadau carbon, sydd felly'n helpu ein nod o fod yn garbon net sero erbyn 2030. Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn parhau i ddatblygu'r dull arloesol hwn ac yn buddsoddi mewn technolegau newydd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac mewn ffordd effeithlon, gynaliadwy ac ecogyfeillgar.

CEFNOGI PRESWYLWYR, BUSNESAU A CHYMUNEDAU CEREDIGION TRWY PANDEMIG COVID-19

3,700

Ymweliad i sicrhau bod safleoedd busnesau yn cydymffurfio â rheolau COVID-19

138

Aelod o staff wedi'u symud i swyddi eraill i gynorthwyo gyda'r ymateb i Covid-19

35,000

O ddeunyddiau wedi'u hanfon drwy'r post i gefnogi'r Rhaglen Brechu yng Ngheredigion

160

Datganiad i'r wasg gyda newyddion a chyngor am COVID-19

8,835

Taliadau Grantiau Busnes wedi'u gweinyddu ar draws Ceredigion, cyfanswm o £49m

15,000

Parsel bwyd wedi'u dosbarthu i breswylwyr sy'n agored i

7,400

Person wedi'u cyfeirio at y Gwasanaeth Orlhain Cysylltiadau i helpu pawb i gadw'n ddiogel

195

O fagiâu Teulu Actif wedi'u dosbarthu gan wasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf

11.4m

O Gyfarpar Diogelu Personol wedi'u dosbarthu

1,000

Cyfrifiadur, tabled a dyfeisiau MIFI wedi'u dosbarthu i ddisgyblion gael mynediad at

CARTREF EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2022

Rhwng y 30ain o Orffennaf a'r 6ed o Awst 2022, croesawodd Ceredigion Eisteddfod Genedlaethol Cymru, a fu'n hir-ddisgwyliedig, i'r Sir. Cafodd y digwyddiad, sy'n un o wyliau diwylliannol mwyaf Ewrop ei chynnal yn Nhregaron ar ôl cael ei gohirio yn 2020 a 2021 oherwydd pandemig COVID-19.

Bu'r digwyddiad yn llwyddiant ysgubol ac roedd gwaith paratoi'r Cyngor ar y cyd â Thîm

yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod y misoedd cyn y digwyddiad wedi ei gwneud hi'n haws nag erioed i bawb fwynhau iaith a diwylliant y sir.

Roedd yn braf croesawu pobl o bell ac agos i Dregaron, i drefi Ceredigion ac i'r ardaloedd cyfagos, ac roedd hyn wedi darparu cyfle unigryw i ddathlu iaith a diwylliant yr ardal a Chymru ar y llwyfan cenedlaethol.

Cefnogwyd yr economi yn ystod yr wythnos, wrth fod ar y maes neu wrth i bobl gerdded o gwmpas y safle i gefnogi busnesau'r sir.

Eleni, cynhaliwyd cystadlaethau barddoniaeth, llefaru, dawnsio, drama, llenyddiaeth, celf a chrefft a llawer mwy.

Roedd ardal chwarae eang hefyd i blant a phobl ifanc, ardal werdd i ymlacio ac edmygu byd natur, a llwyfan perfformio o'r enw 'Llwyfan-ni' lle cynhaliwyd digwyddiadau a pherfformiadau cyffrous.

Pentre' Ceredigion oedd cartref Cyngor Sir Ceredigion yn yr Eisteddfod. Cynigwyd nifer o

weithgareddau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn ystod yr wythnos. Ymwelodd dros 25,000 o bobl â'r ardal hon i gefnogi busnesau newydd, edrych ar arddangosiadau coginio a oedd yn amlygu busnesau a chynnyrch lleol, mwynhau yn yr ardal chwarae i blant, dysgu sgiliau newydd, a gwrandao ar berfformiadau diddorol ar y llwyfan perfformio.

Crëwyd teimlad o berthyn wrth i gymunedau ddod at ei gilydd yn y misoedd cyn yr Eisteddfod i addurno, codi arian, cymdeithasu a chael hwyl gyda'i gilydd.

Yn ystod yr wythnos, cynhaliwyd seremoni i ddathlu cyflawniadau myfyrwyr Camu 'Mlaen. Mae Camu 'Mlaen Ceredigion yn brosiect newydd arloesol sy'n cael ei arwain gan Gyngor Sir Ceredigion mewn partneriaeth â Choleg Ceredigion a Gyrfa Cymru. Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc dros 16, gydag anghenion dysgu ychwanegol, i aros a pharhau â'u haddysg o fewn Ceredigion ac i ddatblygu sgiliau wrth iddynt baratoi at y cam nesaf yn eu bywydau.

Gweithgareddau eraill a drefnwyd eleni oedd cynnal sgysiaau a gweithdai yn y prif adeilad i ddathlu Ceredigion fel lle delfrydol i fyw, perthyn, dysgu a llwyddo ynddo.



Byw

“ Mae cartre, cyfle, gwyliau a gwaith yn rhan o'r olygfa o'r caeau i'r traeth.”



Perthyn

“Siaradwn, fel teulu, iaith ein gilydd, adrodd ein straeon a chreu o'r newydd.”



Dysgu

“Bydd plant y cae lleol sy'n wreiddiau i gyd yn blant y gymuned, plant Cymru a'r byd.”



Llwyddo

“Mae modd aros gartre a mentro'r un pryd: ar garreg y drws y mae'r gorwel o hyd.”

RHEOLI EIN PERFFORMIAD

Ni ddylid ystyried y Strategaeth Gorfforaethol ar ei phen ei hun. Mae'r Strategaeth yn rhan o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud wrth gynllunio'n gorfforaethol a rheoli perfformiad.


Mae'r Cyngor yn defnyddio diagram 'Llinyn Aur' (sydd i'w weld ar y dde) i ddangos y cysylltiadau rhwng y prif strategaethau a chynlluniau. Mae'r diagram yn nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer gwella sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Llesiant Lleol a'r Strategaeth Gorfforaethol. Hefyd, mae'n dangos y gwasanaethau, y timau a'r aelodau unigol o staff yn y Cyngor sy'n gyfrifol am gyflawni'r blaenoriaethau.

Mae Llinyn Aur cryf yn bwysig gan ei fod yn dangos sut y mae gwaith cynllunio a chymau gweithredu ar un lefel yn cyfrannu at yr hyn sy'n digwydd ar y lefel nesaf, a sut mae pob rôl o fewn y Cyngor yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcanion Llesiant Corfforaethol Ceredigion.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn amlinellu gwledigaeth y Cyngor a'r cyfeiriad y bydd yn mynd iddo a chaiff hyn ei nodi drwy ein cynlluniau busnes, arfarniadau unigol a chynlluniau datblygu. Mae'r camau ar gyfer cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol yn cael eu saernio gan aelodau unigol o staff a thimau sy'n cyfrannu at Strategaeth a Gwledigaeth y Cyngor.

Mae Rheoli Perfformiad yn flaenoriaeth fawr yng Ngheredigion. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i wneud gwelliannau parhaus, ceisio barn y bobl yn rheolaidd a chynnal hunanwerthusiad i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella.

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyflawni hyn, mae gennym Fframwaith Rheoli Perfformiad ar waith sy'n caniatáu i ni adolygu'r cynnydd a wneir a chadw golwg arno yn rheolaidd gan archwilio sut yr ydym ni'n perfformio ac ystyried a ydym ni'n cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol ac yn gwella canlyniadau i bobl a chymunedau Ceredigion.



Hunanasesiad

Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi cyflwyno trefn newydd o ran perfformiad i Gyngorau Cymru a oedd yn seiliedig ar hunanasesiad.

Mae Hunanasesu yn ymwneud â hunanymwybyddiaeth, deall ein cryfderau ac ardaloedd i wella, anghenion ein preswylwyr, a gybybod ble a sut i wella.

Ar gyfer Ceredigion, mae egwyddorion hunanasesu eisoes yn rhan annatod o'n trefniadau llywodraethu strategol a chorfforaethol parhaus.

Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn thema amlwg drwy gydol y Ddeddf a byddwn yn defnyddio'r adborth o'n hymarferion ymgynghori â thrigolion, busnesau, staff ac Undebau Llafur i ddylanwadu ar ein Hadroddiad Hunanasesu a Chynllun Gweithredu blynyddol.

Bob blwyddyn byddwn yn cynnal ein hymarfer hunanasesu gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd wrth law i gynhyrchu Adroddiad Hunanasesu a Chynllun Gweithredu sy'n nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i sicrhau ein bod yn:

- Arfer ein swyddogaethau yn effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol
- Mae'r llywodraethu hwnnw'n effeithiol ar gyfer sicrhau'r materion a nodir uchod

Disgwylir i'r Adroddiad Hunanasesu cyntaf gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022.

DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac mae'n amlinellu'r 5 ffordd o weithio y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus eu mabwysiadu i ddangos eu bod wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Datblygu Cynaliadwy yw'r egwyddor drefnu ganolog sy'n llywio'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r ffordd yr ydym yn gwneud hynny.

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ymdrechu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Rydym wedi gwreiddio'r egwyddor ar draws y Cyngor ac yn mabwysiadu'r egwyddor wrth gynllunio a chyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol newydd. Mae rhai o'r ffordd yr ydym wedi defnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn cael eu hamlinellu isod.

Hirdymor



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. Bwriad y Strategaeth Gorfforaethol hon yw datblygu a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwyllianol Ceredigion dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt.

Mae'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r camau yn cynllun hwn wedi'u seilio ar y wybodaeth yn Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ac Asesiad Poblogaeth

Gorllewin Cymru. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn sicrhau bod y penderfyniadau yn ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol, ac mae'r cynlluniau o ran y gweithlu yn sicrhau bod sgiliau'r gweithlu yn cael eu datblygu ar gyfer y dyfodol.

Atal



Gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd gennym, bwriad ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol a'r camau cysylltiedig yw atal problemau rhag digwydd neu eu hatal rhag gwaethygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael ag effeithiau tlodi, ystyried materion sy'n ymwneud â natur wledig y sir a gwella llesiant pobl o bob oed, o'r crud i'r bedd. Er enghraifft, mae digartrefedd yn gysylltiedig â'r agenda atal ac mae Model Gydol Oed y Gwasanaethau Cymdeithasol yn hybu ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol fel un o'i amcanion craidd.

Cydweithio



Mae'r Amcanion Llesiant Corfforaethol yn cynllun hwn yn cyd-fynd â Chynllun Llesiant Bwrdd



Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Mae hyn yn adlewyrchu'r dyheadau yr ydym yn eu rhannu a dealltwriaeth gyffredin o'r heriau sy'n wynebu'r sir, megis mynd i'r afael â thlodi, datgarboneiddio a lleihau anghydraddoldeb. Mae'r Cyngor yn rhagweithiol wrth gydweithio â phartneriaid i gyflawni'r amcanion hyn drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Integreiddio



Mae'r Amcanion Llesiant Corfforaethol wedi'u pennu ar y cyd gan yr holl wasanaethau ac maent yn ymwneud â holl swyddogaethau'r Cyngor. Maent yn canolbwyntio ar yr hyn y gall pob gwasanaeth ei wneud i wella llesiant pobl Ceredigion ac maent yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r Amcanion hefyd yn ymgorffori trefniadau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor.

Cynnwys



Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2027 wedi ystyried yr Asesiad Llesiant Lleol. Paratowyd yr Asesiad ar ôl ymgysylltu'n helaeth â dinasyddion y sir, gan gynnwys y rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig, fel y'i diffinnir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Rydym hefyd yn rhagweithiol o ran cynnal digwyddiadau i randdeiliaid ac yn arbennig gyda grwpiau nad yw eu lleisiau prin yn cael eu clywed, ac rydym ar hyn o bryd wrthi'n datblygu Strategaeth newydd ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chyfranogiad y Cyhoedd sy'n sicrhau ein bod yn adlewyrchu amrywiaeth y Sir a'i chymuned



EIN PERFFORMIAD

MESURIADAU ALLWEDDOL ARALL

Mae'r Cyngor yn monitro ac yn meincnodi ei berfformiad yn rheolaidd fel rhan o'i drefniadau rheoli perfformiad parhaus. Mae meincnodi yn cyfrannu at ein heffeithlonrwydd a'n heffeithlonrwydd cyffredinol drwy ganiatáu i ni nodi arfer gorau a chyfleoedd ar gyfer gwella.

Oherwydd effaith pandemig COVID-19, gohiriwyd adrodd ar y Mesurau Atebolrwydd Perfformiad cenedlaethol (PAMs) am y flwyddyn 2020/21. O ganlyniad dim ond nifer fach a gasglwyd a dangosir y rhain drosodd.

Y flwyddyn gasglu lawn ddiwethaf oedd 2019/20, pan gasglwyd un ar hugain o Fesurau Atebolrwydd Perfformiad. Mae canlyniadau'r flwyddyn honno'n dangos bod y mwyafrif (14) o fesurau Ceredigion yn cyrraedd eu targed, gyda

3 arall ychydig oddi ar y targed a 4 yn sylweddol oddi ar y targed (gweler y siart isod ar y chwith).

O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd y mwyafrif (14) wedi dangos gwelliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, nid oedd yr un ohonynt ar yr un lefel ac roedd y 7 arall wedi gostwng (gweler y siart isod).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda Data Cymru a phob un o'r 21 Awdurdod Lleol ledled y wlad i ddatblygu set well o fesurau i gynorthwyo gyda'r gwaith o feincnodi a bydd gwaith ar hyn yn parhau yn ystod 2023/24.



Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad i fonitro pa mor dda y mae ein gwasanaethau'n perfformio o ran bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau ac i fesur eu heffeithlonrwydd a'u gwerth am arian.

Maent yn mesur perfformiad ar draws ystod eang o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys: rheolaeth ariannol, addysg, tai, gwasanaethau hamdden, rheoli gwastraff a glanhau strydoedd. Gosodir targedau ar gyfer pob mesur a gwneir cymariaethau gyda rhanbarth Gorllewin Cymru a'r darlun cenedlaethol.


Er enghraifft, er gwaethaf yr heriau sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd

pandemig COVID-19, mae dau fesur effeithlonrwydd allweddol, sef casglu Treth y Cyngor ac ardrethi Annomestig (busnes), yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r Dreth Gyngor Band 'D' gyfartalog, a ddefnyddir yn aml fel cymharydd rhwng gwahanol Siroedd, yn dangos bod y cyfraddau cyfredol yn gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol ledled Cymru.

Treth gyngor band D gyfartalog




- Ar y targed: **14** (72%)
- Oddi ar y targed (<=5%): **3** (14%)
- Oddi ar y targed (>5%): **4** (13%)




- Ar y targed: **14** (67%)
- Oddi ar y targed (llai na 5%): **0** (0%)
- Oddi ar y targed (mwy na 5%): **7** (33%)

Cyfraddau casglu'r dreth gyngor



Cyfraddau casglu ardrethu annomestig




2020/21 MESURIADAU ATEBOLRWYDD PERFFORMIAD

Absenoldeb Salwch

Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul gweithiwr
Cyfwerth ag Amser Llawn


▼ Nifer



Atal Digartrefedd

% o deuluoedd sydd wedi'u hatal rhag bod yn ddigartref


▼ Canran



Ailgylchu

% o wastraff a gafodd ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio


▼ Canran



Prentisiaethau

Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol fesul
1,000 o weithwyr


▼ Nifer



Tai Fforddiadwy

Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y
flwyddyn fesul 10,000 o aelwydydd


▼ Nifer



Casglu Gwastraff

Y cilogramau o wastraff cartrefi a gynhyrchwyd fesul unigolyn


▼ Kgs



Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs)

Canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth
na Hyfforddiant (NEETs)



▼ Canran



Tipio Anghyfreithlon

Cyfartaledd y diwrnodau gwaith y mae'n cymryd i glirio achosion o dipio
anghyfreithlon'

▼ Nifer



Cysylltwch â Ni

✉ **Post:**
Cyngor Sir Ceredigion

Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

📞 **Ffôn :**
01545 570881

Mae Fersiwn **Testun Plaen** neu Fersiwn
Hawdd ei Ddarllen o'r ddogfen hon ar gael
gan Gyngor Sir Ceredigion

www.ceredigion.gov.uk



Corporate Strategy 2022-27 Consultation Feedback Report



October 2022



51

Responses received
(As at 30 September)



78%

Agree or strongly agree with the Boosting the Economy objective
(6% disagree or strongly disagree)

75%

Agree or strongly agree with the Creating Caring and Healthy Communities objective
(8% disagree or strongly disagree)



71%

Agree or strongly agree with the Providing the Best Start in Life objective
(4% disagree or strongly disagree)

73%

Agree or strongly agree with the Creating Sustainable, Greener and Well-connected Communities objective
(2% disagree or strongly disagree)



48

Comments received in relation to the impact on the Welsh language. The main theme was the need for a **greater emphasis on promoting Welsh**

Key themes from the written comments:

- SUPPORT FOR BUSINESSES, SME's AND NEW START-UPS
- DIGITAL CONNECTIVITY FOR ALL, NOT JUST A PERCENTAGE
- ENVIRONMENTAL IMPACT FROM DEVELOPMENT AND ECONOMIC GROWTH
- LEISURE FACILITIES AND OPPORTUNITIES FOR YOUNGER PEOPLE
- ACTIVE TRAVEL OPPORTUNITIES PARTICULARLY WALKING AND CYCLING
- CHALLENGES FACING PROVISION OF SOCIAL CARE
- RURAL DEPRIVATION
- LEARNING OPPORTUNITIES FOR ADULTS AND OLDER PEOPLE
- CONNECTING COMMUNITIES VIA ACTIVE TRAVEL ROUTES
- PUBLIC TRANSPORT IMPROVEMENTS AND HIGH COSTS
